Barnwriaeth
Cymru a Lloegr



Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2026

Annibynnol, Diduedd, Uniondeb

Barnwriaeth
Cymru a Lloegr

Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2026

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 5(1) Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.judiciary.co.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn website.enquiries@judiciary.uk

ISBN 978-1-5286-6817-0

E03675637

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cyhoeddwyd gan: Y Swyddfa Farnwrol
11th Floor Thomas More Building,
Royal Courts of Justice,
Strand,
London WC2A 2LL
www.judiciary.uk

Cynnwys

Rhagymadrodd gan yr Arglwyddes Brif Ustus **2**

Barnwriaeth Cymru a Lloegr **10**

Llywodraethu Barnwrol 11
System y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr 12
Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol 14
Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol 2025-26 18
Wythnos Waith yr Arglwyddes Brif Ustus 20

Gwaith barnwyr ac ynadon **22**

Sifil 23
Troseddol 31
Teulu 37
Cymru 39
Crwneriaid 42
Y System Cyfiawnder Milwrol 43

Y Farnwriaeth Fodern **46**

Amrywiaeth a Chynhwysiant 48
Cyfathrebiadau Barnwrol Mewnol 51
Arweinyddiaeth 51
Recriwtio a Phenodiadau 53
Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Farnwrol 54
Hyfforddiant 55
Llesiant Barnwrol 57
Ymddygiad a Disgyblaeth 58
Deallusrwydd Artiffisial (DA) 59
Diogelwch 59
Llysoedd Barn Dinas Llundain 60

Ymgysylltiadau Allanol a Rhyngwladol **62**

Cyfathrebiadau Allanol 63
Ymgysylltu ag Ysgolion 65
Y Proffesiwn Cyfreithiol 65
Panel Diogelu Data Barnwrol 66
Tryloywder a Chyfiawnder Agored 66
Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd 68
Ymgysylltu Rhyngwladol 69

Rhagymadrodd gan yr Arglwyddes Brif Ustus

Croeso i'm trydydd adroddiad blynyddol fel Arglwyddes Brif Ustus, sy'n cofnodi gwaith barnwriaeth Cymru a Lloegr rhwng mis Hydref 2025 a mis Medi 2026. Mae'r farnwriaeth yn cyflawni rôl hanfodol wrth gynnal rheolaeth y gyfraith a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu heb ofn na ffafr, serch na drwgdeimlad. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ehangder ein cyfrifoldebau ac mae'n rhan o'm hymdrech barhaus i wella dealltwriaeth y cyhoedd o waith y farnwriaeth.

Wrth imi ddechrau fy mhedwaredd flwyddyn yn y swydd, rwy'n parhau'n ymrwymedig i'm tair blaenoriaeth: cydnabod a hyrwyddo cryfderau'r farnwriaeth; meithrin undod barnwrol; a lleihau ôl-groniadau, gwella amseroldeb a chynnal ansawdd. Fe welwch weithgarwch barnwrol sy'n cefnogi pob un o'r amcanion hyn wedi'i blethu drwy'r adroddiad hwn.

Mae cryfder, cydnerthedd a sefydlogrwydd ein barnwriaeth ymhlith asedau cyfansoddiadol mawr Cymru a Lloegr. Ond nid yw cydnerthedd a sefydlogrwydd yn golygu aros yn yr unfan. Mae'r adroddiad hwn yn dangos, er ei bod hi, mewn sawl ffordd, yn 'fusnes fel arfer' i'r farnwriaeth, ein bod hefyd yn edrych tua'r dyfodol am ffyrdd o foderneiddio, arloesi a pharhau i wasanaethu cymdeithas sy'n newid.

Eleni, gwelir ymddeoliadau sylweddol (sydd wedi digwydd neu sydd ar fin digwydd) ymhlith penaethiaid adrannau a newidiadau mewn arweinyddiaeth farnwrol. Gwnaeth Syr Geoffrey Vos, y Fonesig Victoria Sharp, Syr Andrew McFarlane a Syr Julian Flaux oll gyfraniad eithriadol i'r gyfraith ac i'r farnwriaeth yn ei chyfanrwydd. Bydd colled fawr ar eu hôl i bob un ohonom. Ar ran y farnwriaeth, yn ogystal ag ar lefel bersonol, diolchaf iddynt am eu cyfraniadau eithriadol.

Yn ei dro, rydym yn wynebu blwyddyn gyfreithiol 2026-27 gyda Bwrdd Gweithredol Barnwrol wedi'i adnewyddu. Ym mis Ebrill 2026, penodwyd Syr Stephen Cobb yn Llywydd yr Adran Deulu. O fis Hydref ymlaen, bydd Syr Mark Warby yn dod yn Llywydd Adran Mainc y Brenin ac, o 2 Tachwedd ymlaen, bydd Syr Colin Birss yn dod yn Feistr y Rholiau. Penodir Llywydd newydd yr Adran Busnes ac Eiddo yn gynnar yn 2027. Edrychaf ymlaen at wynebu'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaenau gyda chefnogaeth y barnwyr a'r arweinwyr rhagorol hyn.

Bu'n flwyddyn arall o newid yn y llywodraeth ac, ar ddechrau Hydref 2026, byddaf yn derbyn y Gwir Anrhydeddus Alex Norris AS i'w swydd fel Arglwydd Ganghellor, y pedwerydd Arglwydd Ganghellor yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â'r llywodraeth ac uwch-swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn rhan ganolog



o'm rôl ac mae gennyf bob hyder y byddaf yn gallu meithrin perthynas gydweithredol ac adeiladol â'r Arglwydd Ganghellor newydd.

Rhoddais dystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd 2025 a gerbron Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ym mis Mehefin 2026. Eleni, cyflwynais sylwadau ysgrifenedig hefyd mewn ymateb i alwad y Pwyllgor Trefniadaeth am dystiolaeth ar yr egwyddor a'r agweddau ymarferol sy'n ymwneud â sylwadau cyhoeddus, adroddiadau yn y cyfryngau a dadleuon seneddol ar achosion llys gweithredol neu sydd ar ddod, er mwyn sicrhau treial teg. Rwyf wedi cymeradwyo Strategaeth Ymgysylltu Seneddol newydd ar gyfer y farnwriaeth. Mae hwn yn gyfle pwysig i wella dealltwriaeth seneddwyr o waith y farnwriaeth a dealltwriaeth y farnwriaeth o brosesau seneddol. Rwy'n falch iawn bod mwy na 100 o ASau wedi derbyn ein gwahoddiad i ymweld â'u llysoedd a'u canolfannau tribiwnlysoedd lleol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Yn ei dro, mae'r sector cyfiawnder – a chyfiawnder troseddol yn benodol – wedi bod yn ganolbwynt i'r llywodraeth, gyda chyhoeddi ail ran yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol (IRCC) a Bil y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd arfaethedig. Yn y cyfamser, mae pasio Deddf Hawliau Rhentwyr 2026 ym mis Mai a chyflwyno Deddf Hawliau Cyflogaeth 2026 fesul cam yn debygol o arwain at gynnydd

sylweddol yn nifer yr achosion i'r farnwriaeth. Wrth i ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol osod gofynion newydd ar y farnwriaeth, byddaf yn parhau i bwysleisio y dylai'r llysoedd gael eu hariannu'n briodol a chael adnoddau digonol er mwyn ymateb i newidiadau o'r fath.

Fel yr adlewyrchir yn yr IRCC, mae lleihau oedi yn y llysoedd troseddol yn parhau'n flaenoriaeth i bawb yn y system cyfiawnder troseddol ehangach. Hoffwn dynnu sylw'n benodol at waith blaenorol a pharhaus Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol (CCIG), a arweinir gan y farnwriaeth, dan lygad barcud yr Uwch Farnwr Llywyddol, yr Arglwydd Ustus Green. Mae'r CCIG yn chwarae rhan ganolog wrth ddod â phob parti yn y system ynghyd – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF), MoJ, yr heddlu, y gwasanaeth prawf ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ehangach – er mwyn meithrin dealltwriaeth, arloesi a sbarduno gwelliannau mewn effeithlonrwydd. Diolch i'r barnwyr sydd wedi neilltuo cymaint o'u hamser a'u hegni i'r gwaith hwn yn ogystal â chyflawni eu dyletswyddau eistedd dyddiol. Yn unol â chyngor y CCIG, ym mis Gorffennaf cyhoeddais y fframwaith cenedlaethol cyntaf ar gyfer rhestru achosion yn y llysoedd troseddol, ynghyd â chanllawiau ar gysylltiadau byw a chyfranogiad o bell. Croesewais gyhoeddiad MoJ ym mis Chwefror i ganiatáu nifer diderfyn o ddiwrnodau eistedd yn Llysoedd y Goron fel cam pwysig tuag at leihau'r ôl-groniad, ond mae nifer yr achosion yn Llys y Goron yn parhau'n uchel. Mae nifer yr achosion sy'n dod i mewn i'r llysoedd ynadon hefyd yn cynyddu, ac mae gennym darged uchelgeisiol i gynyddu maint yr ynadaeth tua 25% ar gyfer 2028-29. Lansiwyd Tasglu Cenedlaethol Recriwtio Ynadon ar y cyd rhwng y Swyddfa Farnwrol, GLITEF a MoJ ym mis Ebrill ac mae eisoes wedi cyrraedd targedau recriwtio. Mae ein holl farnwyr ac ynadon yn parhau i ganolbwyntio ar leihau oedi, gan sicrhau ar yr un pryd fod achosion yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn deg drwyddi draw.

Fel bob amser, rhaid inni gofio mai dim ond un elfen o waith y farnwriaeth yw cyfiawnder troseddol. Mae holl farnwyr ein llysoedd sifil a theulu, a'n tribiwnlysoedd, yn parhau i weithio drwy lwythi achosion trwm, i weinyddu cyfiawnder ar draws cymdeithas, ac i chwilio am ffyrdd newydd o foderneiddio a gwella effeithlonrwydd gan gynnal tegwch ac uniondeb.

Ym maes cyfiawnder sifil, er bod y Llysoedd Sirol yn wynebu nifer cynyddol o achosion, mae'r amser canolrifol rhwng cychwyn achos a threial yn parhau i ostwng. Mae hwn yn welliant i'w groesawu o ran amseroldeb sy'n adeiladu ar waith y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ffocws parhaus ar ddigideiddio. Mae dau wasanaeth digidol allweddol ym maes cyfiawnder sifil – Hawliadau am Arian yn y Llys Sifil Ar-lein a Hawliadau am Iawndal Ar-lein – bellach ar gael fel gwasanaethau digidol cyflawn o'r dechrau i'r diwedd. Gyda'i gilydd, mae mwy na miliwn o hawliadau wedi'u penderfynu ar y llwyfannau hyn – sy'n dyst i'r modd y gall systemau digidol sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus wella profiad defnyddwyr y llysoedd a chefnogi datrysiadau mwy amserol.

Mae ein llysoedd teulu, ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus a chyfraith

breifat, yn ogystal â'r Llys Gwarchod a'r Llys Rhwymedïau Ariannol, oll yn gweld nifer y ceisiadau'n cynyddu ond, fel yn y llysoedd sifil, mae gostyngiad i'w groesawu yn yr amser a gymerir i benderfynu achosion yn cyd-fynd â hyn. Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd MoJ y byddai Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn (a elwid gynt yn Llysoedd Braenaru Cyfraith Breifat) yn cael eu cyflwyno'n genedlaethol ledled Lloegr dros y tair blynedd nesaf. Mae'r llysoedd hyn, sydd eisoes ar waith ledled Cymru, yn rhoi rhyngweithio dan arweiniad arbenigwyr â'r plant yr effeithir arnynt wrth wraidd eu gwaith er mwyn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gwahanu. Maent wedi bod yn llwyddiant amlwg o ran lleihau'n sylweddol yr amser a gymerir i benderfynu achosion cyfraith breifat, gyda nifer yr achosion agored yn gostwng fwy na hanner yn yr ardaloedd a fabwysiadodd y dull yn gynnar. Gobeithiwn y bydd eu cyflwyno ledled Lloegr yn helpu i leihau'r amser a dreulir yn y llys gan y teuluoedd dan sylw ac yn galluogi datrysiadau i gael eu rhoi ar waith yn gyflym. Gall hyn wneud gwahaniaeth rhyfeddol i fywydau plant a theuluoedd dirifedi.

Gall moderneiddio – thema eleni – fod ar sawl ffurf, o gofleidio technoleg, i addasu trefniadau llywodraethu, i ddatblygu dulliau ymgysylltu. Wrth i alluoedd deallusrwydd artiffisial (DA), a'n dealltwriaeth ohonynt, barhau i ddatblygu, mae'r farnwriaeth yn ystyried yn ofalus ddefnyddiau posibl y dechnoleg a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hi. Mae llawer o ddeiliaid swyddi barnwrol wedi nodi cynnydd yn y defnydd o DA ymhlith ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Tra bod hyn yn gwella mynediad at gyfiawnder, mae hefyd yn creu ei gymhlethdodau ei hun, ond mae'r farnwriaeth yn ymateb yn rhagweithiol, er enghraifft drwy ganllawiau Adran Droseddol y Llys Apêl i ymgyfreithwyr ar ddefnyddio DA wrth baratoi seiliau apêl. Yn fwy cyffredinol, er ein bod yn cydnabod potensial offer DA – megis y rhai a ddefnyddir ar gyfer trawsgrifio a chrynhoi – i leihau ôl-groniadau yn y llysoedd a gwella amseroldeb, mae'r farnwriaeth yn bendant y bydd goruchwylio'r defnydd ohonynt a gwneud penderfyniadau yn parhau i fod yn swyddogaeth ddynol, dan arweiniad barnwr.

O ran llywodraethu, mae cyfuno'r Llysoedd Busnes ac Eiddo ym mis Hydref 2026 yn un adran – yr Adran Busnes ac Eiddo – yn cynrychioli moderneiddio sylweddol ar strwythur yr Uchel Lys. Hyd yma, mae'r Llysoedd Busnes ac Eiddo – un o'r nifer o straeon llwyddiant yn ein system gyfiawnder – wedi bod yn rhan o'r Adran Siawnsri ac Adran Mainc y Brenin. Mae'r cyfuno hwn, sy'n cadw hunaniaeth a chryfderau unigryw pob rhestr o fewn yr adran newydd, yn atgyfnerthu ein safle fel canolfan fyd-eang flaenllaw ar gyfer datrys anghydfodau.

O ran agweddau ac ymgysylltu sy'n datblygu, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Agored a Thryloywder yn parhau i wneud gwaith y llysoedd, ac yn ei dro ddealltwriaeth ehangach y cyhoedd o'r gyfraith, yn fwy hygyrch nag erioed. Ar ôl ei sefydlu ym mis Ebrill 2024, mae'r Bwrdd wedi dechrau rhoi newidiadau ar waith; er enghraifft, drwy'r Cynlluniau Peilot Dogfennau Parth Cyhoeddus yn y Llys Masnachol, Llys Masnachol Cylchdaith Llundain a'r Rhestr Ariannol. Mae tryloywder yn amddiffynfa hanfodol i system gyfiawnder sy'n gweithredu'n effeithiol, i bartïon mewn

achosion ac i'r cyhoedd yn ehangach. Rwy'n parhau i groesawu'r cyfle i gael trafodaeth agored â newyddiadurwyr, fel yn fy nghynhadledd flynyddol i'r wasg, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026.

Dim ond un elfen o gyfiawnder agored yw gwneud y llysoedd yn fwy hygyrch i'r cyfryngau. Elfen arall yw adeiladu ar ddealltwriaeth y cyhoedd o reolaeth y gyfraith drwy ymgysylltu â chymunedau ar draws cymdeithas. Rwy'n parhau i gael fy mhlesio gan ehangder y gwaith a wnaed mewn sefydliadau addysgol a sefydliadau dinesig gan ein Barnwyr a'n Hynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol ymroddedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar ôl ymweld ag Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd, gyda barnwyr lleol ym mis Chwefror, gwn pa mor ysbrydoledig y gall trafodaethau â chenedlaethau'r dyfodol fod.

Mae Cymru yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o arloesedd yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, ac mae'n dangos sut y gall camau gweithredu sydd wedi'u profi'n ofalus wella profiad defnyddwyr y llysoedd ledled y wlad, yn ogystal â chefnogi canlyniadau gwell i bawb. Fel y soniwyd, Cymru oedd y Gylchdaith gyntaf i gwblhau'r gwaith o gyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn. Mae mentrau pellach, megis y llys datrys problemau sy'n canolbwyntio ar fenywod yn Llys Ynadon Abertawe, yn dangos ei rôl barhaus wrth brofi dulliau ymarferol. Eleni, roedd yn bleser cyfarfod â Phrif Weinidog Cymru i gael trafodaeth fuddiol am y pwysau sy'n wynebu'r system gyfiawnder, yn ogystal â bod y Prif Ustus cyntaf i roi tystiolaeth i'r Senedd. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gefnogi statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg yn llysoedd Cymru, ac roedd ymweliad ein Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg â Chanada ym mis Chwefror yn arbennig o ysbrydoledig, gan roi cyfle i arsylwi ar y cymorth ymarferol sydd ar gael mewn awdurdodaeth ddwyieithog arall.

Mwynheais fy ymweliad â Chanada ym mis Mai yn fawr, gan gyfarfod â'r Prif Weinidog Mark Carney, yn ogystal ag uwch-farnwyr yn Ontario. Roedd yr ymweliad yn ein hatgoffa mai ar ein cryfaf yr ydym pan fyddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd craidd, gan gynnwys pwysigrwydd annibyniaeth farnwrol, rheolaeth y gyfraith a'u rôl allweddol mewn democratiaeth gymdeithasol rydd sy'n gweithredu'n effeithiol. Roedd ymgysylltu rhyngwladol yn arbennig o nodedig ar draws awdurdodaethau eraill y Gymanwlad ac Ewrop eleni – y flwyddyn gyntaf ers cyhoeddi ein Strategaeth Ymgysylltu Rhyngwladol. Croesawyd barnwyr o bob cwr o'r byd gennym i Agoriad y Flwyddyn Gyfreithiol ym mis Hydref 2025, a chynhaliwyd Cynhadledd gyntaf Barnwyr Cyswllt Ewrop gennym ym mis Chwefror 2026. Mae hyn, a llawer o weithgarwch rhyngwladol arall, yn adeiladu ar y parch mawr sydd at gyfraith Cymru a Lloegr ledled y byd. Rwy'n falch o'n henw da hirsefydlog am gynnal rheolaeth y gyfraith, sydd wedi'i gryfhau gan yr ymgysylltu rhagorol ac ymroddedig rhwng barnwyr a'u cydweithwyr rhyngwladol.

Agwedd arall ar ein statws rhyngwladol cryf yw gwaith y Coleg Barnwrol wrth ddarparu hyfforddiant ledled y byd. Ac, yn ddomestig, mae'r Coleg Barnwrol yn darparu hyfforddiant i

ddegau o filoedd o ddeiliaid swyddi barnwrol. Roeddwn yn falch iawn, ochr yn ochr â Chadeirydd y Coleg Barnwrol, yr Arglwyddes Ustus King, o gynnal digwyddiad yn y Llysoedd Barn Brenhinol ym mis Gorffennaf i arddangos ei waith, yma a thramor. Er bod y Coleg yn parhau i gyflwyno ei raglen graidd helaeth, mae hefyd yn parhau i arloesi yn yr hyn y mae'n ei gynnig mewn ymateb i newidiadau polisi. Mae safon uchel ei waith yn cyfrannu at gryfhau hyder y cyhoedd yn y farnwriaeth mewn tirwedd gyfreithiol a chymdeithasol sy'n newid.

Mae dyletswyddau'r farnwriaeth yn gymhleth, yn heriol ac yn cynyddu. Mae'r farnwriaeth yn parhau i weithio mewn amgylchiadau anodd, weithiau yng nghanol gwybodaeth gamarweiniol ymfflamychol sy'n cael ei gwaethygu a'i chwyddo gan drafodaeth dameidiog ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae cefnogi diogelwch a lles deiliaid swyddi barnwrol yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth imi. Mae gwaith ein Tasglu Diogelwch, dan arweiniad yr Arglwyddes Ustus Yip, bellach wedi cryfhau ein gweithdrefnau a'n systemau yn sylweddol, ac eleni cyhoeddwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant Barnwrol newydd 2026–30, gyda ffocws allweddol ar gyfrifoldebau bugeiliol barnwyr arweiniol a chadeiryddion meinciau. Mae fy sesiynau fforwm agored gyda barnwyr ac ynadon yn parhau i fod yn gyfle gwerthfawr i glywed cwestiynau a phryderon deiliaid swyddi barnwrol. Mae wedi bod yn bleser eleni i groesawu gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r uwch farnwriaeth fel fy ngwesteion.

Mae meithrin diwylliant parchus a chynhwysol i bob barnwr, gweithiwr cyfreithiol proffesiynol a defnyddiwr llys yn allweddol, nid yn unig i lesiant barnwrol, ond hefyd i weithrediad y system. Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, Comisiynydd Ymddygiad Cyngor y Bar a minnau ymrwymiad ar y cyd i ddiwylliant o'r fath, a byddwn yn parhau i gryfhau hyder pobl i godi pryderon ynghylch ymddygiad lle bynnag y byddant yn codi. Dylai pob deiliad swydd farnwrol deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi, a'i fod yn gallu ffynnu, bob amser.

Mewn cam arall i'w groesawu tuag at farnwriaeth fwy cynhwysol ac amrywiol, rwy'n falch ein bod hefyd, yr haf hwn, wedi gallu adrodd am gefndir economaidd-gymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol, a chrefydd neu gred yn ein hystadegau amrywiaeth am y tro cyntaf. Mae gwybod y ffigurau hyn yn ein galluogi i olrhain cynnydd a dysgu ohono. Tair prif flaenoriaeth ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd yw gwella cynrychiolaeth barnwyr Du, cynyddu amrywiaeth ymhlith y gronfa o ymgeiswyr ar gyfer yr Uchel Lys ac uwchlaw, a chryfhau cynhwysiant pobl anabl. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r Arglwyddes Ustus Whipple am ei harweinyddiaeth ym mhob un o'r meysydd pwysig hyn.

Mae ein hymrwymiad parhaus i amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys cefnogi'r rhai o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd cyfreithiol a barnwrol, yn ogystal â seminarau cyn ymgeisio ar gyfer darpar ymgeiswyr

barnwrol. Ym mis Mai 2026, lansiodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd a minnau y Bwrdd Amrywiaeth Barnwrol a Chyfreithiol ar y cyd er mwyn dod â sefydliadau ar draws y sector cyfreithiol ynghyd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad ar y cyd i amrywiaeth farnwrol ac i fwy o gydweithio ar draws y proffesiynau sy'n darparu'r llwybr i'r farnwriaeth. Mae barnwriaeth sy'n manteisio ar yr ystod ehangaf o dalent a rhagoriaeth yn cryfhau hyder y cyhoedd ac yn cyfoethogi'r broses o wneud penderfyniadau.

Felly, bu unwaith eto yn flwyddyn brysur a llawn digwyddiadau. Ni fyddai llawer o'r hyn sydd wedi'i gyflawni wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ymroddedig swyddogion yn y Swyddfa Farnwrol a'r rhai yn GLITEF. Diolch i'r holl dimau hyn am eich gwaith caled a'ch cymorth drwy gydol y flwyddyn.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch i bob un deiliad swydd farnwrol – barnwyr, ynadon, aelodau tribiwnlysoedd a chrwneriaid. Nid yw eich gwaith yn hawdd. Mae angen gwybodaeth arbenigol, ymroddiad, dewrder moesol a chydnerthedd i barhau i weinyddu cyfiawnder mewn hinsawdd o newid parhaus. Diolch am bopeth yr ydych yn ei wneud, ac yn parhau i'w wneud, i gynnal hyder y cyhoedd, cynnal rheolaeth y gyfraith a gwneud yr hyn sy'n iawn i bawb.

Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Carr





Barnwriaeth Cymru a Lloegr



Mae barnwriaeth Cymru a Lloegr yn cynnwys barnwyr, ynadon, aelodau tribiwnlysoedd a chrwneriaid. Gyda'i gilydd, mae'r unigolion hyn yn cynnal rheolaeth y gyfraith.

Mae barnwyr ac aelodau eraill o'r farnwriaeth yn goruchwylio achosion mewn gwahanol fathau o lysoedd a thribiwnlysoedd, ac mewn gwahanol feysydd o'r gyfraith, ledled y wlad.

Mae'r llysoedd wedi'u strwythuro'n hierarchaidd ar draws gwahanol awdurdodaethau. Y prif awdurdodaethau yng Nghymru a Lloegr yw sifil, troseddol, teulu, tribiwnlysoedd, milwrol a chrwneriaid. O fewn yr awdurdodaethau hyn, ceir gwahanol lefelau o lysoedd.

Llywodraethu Barnwrol

O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, mae'r Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus yn gyfrifol am ryw 400 o swyddogaethau statudol, gyda chefnogaeth eu cydweithwyr barnwrol, yn ogystal â staff gweinyddol y llysoedd.

Mae'r Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus yn arfer eu cyfrifoldebau gweithredol ac arweinyddol drwy, a gyda chefnogaeth, y Bwrdd Gweithredol Barnwrol (JEB), ac mae hefyd Gyngor y Barnwyr, sy'n cynrychioli pob lefel o'r farnwriaeth..

System y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, mae system y llysoedd wedi esblygu a datblygu dros 1,000 o flynyddoedd. Ymdrinnir â gwahanol fathau o achosion mewn llysoedd penodol, ac mae ganddynt wahanol lwybrau i'r Llys Apêl.

Bydd y rhan fwyaf o achosion troseddol yn dechrau yn y llys ynadon, ac anfonir materion troseddol mwy difrifol i Lys y Goron. Bydd apeliadau o Lys y Goron yn mynd i Adran Droseddol y Llys Apêl ac, o bosibl, i Goruchaf Lys y DU.

Bydd achosion sifil fel arfer yn dechrau yn y Llys Sirol. Bydd apeliadau'n mynd i'r Uchel Lys ac yna i'r Llys Apêl – er i wahanol adrannau o'r llysoedd hynny.

Mae gan y system tribiwnlysoedd ei strwythur ei hun ar gyfer ymdrin ag achosion ac apeliadau, ond gall penderfyniadau o wahanol siambrau'r Uwch Dribiwnlys, a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth, hefyd fynd i'r Llys Apêl.

Mae strwythur y llysoedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr; mae'r system tribiwnlysoedd yn cwmpasu Cymru, Lloegr ac, mewn rhai achosion, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Sifil

Mae cyfiawnder sifil yn cwmpasu ystod eang o faterion, lle mae pobl, busnesau neu sefydliadau eraill yn ceisio datrys anghydfodau rhyngddynt, neu sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu. Mae'r awdurdodaeth yn cwmpasu ystod eang iawn – o hawliadau cymharol fach neu syml, er enghraifft nwyddau sydd wedi'u difrodi neu adennill dyled, i hawliadau mawr rhwng cwmnïau rhyngwladol.

Fel arfer, bydd barnwyr yn yr awdurdodaeth sifil yn dyfarnu 'iawndal' ariannol i'r parti llwyddiannus. Bydd maint y dyfarniad hwn yn dibynnu ar amgylchiadau'r hawliad. Weithiau bydd y llys yn gwneud gorchymyn neu waharddeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymddygiad penodol ddigwydd neu ddod i ben. Mae gan y llysoedd sifil hefyd broses i sicrhau y gellir gorfodi dyfarniadau.

Troseddol

Daw achosion troseddol gerbron y llys ar ôl i erlynydd, Gwasanaeth Erlyn y Goron fel arfer, wneud penderfyniad i erlyn rhywun am drosedd honedig. Yn dibynnu ar y math o achos, gellir ei wrando naill ai yn y llys ynadon yn unig, neu gellir ei wrando naill ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron.

Pan fo diffynnydd yn anghytuno ag achos yr erlyniad, cynhelir treial. Os yw'r treial hwnnw yn y llys ynadon, caiff ei wrando naill ai gan banel o dri ynad neu gan Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Maent yn gwrando ar y dystiolaeth ac yn penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog. Os ceir y diffynnydd yn euog, bydd yr ynadon neu'r Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) yn gosod y

ddedfryd neu'n anfon yr achos i Lys y Goron i'w ddedfrydu, os yw'r drosedd, neu'r cyfuniad o droseddau, mor ddifrifol fel y byddai'r ddedfryd sy'n briodol yn fwy na'u pwerau dedfrydu. O dan adran 224 o Ddeddf Dedfrydu 2020, ni chaiff ynadon osod dedfryd o garchar sy'n fwy na chwe mis ar gyfer achosion na ellir ond eu gwrando yn y llys ynadon (ar gyfer trosedd diannod unigol), a 12 mis ar gyfer achosion y gellir eu gwrando naill ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron (ar gyfer trosedd neillffordd unigol). Uchafswm cyfanswm y ddedfryd o garchar (ni waeth faint o droseddau sydd) yw 12 mis yn y llys ynadon.

Caiff achosion troseddol mwy difrifol eu gwrando yn Llys y Goron, fel arfer gerbron Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn eistedd gyda rheithgor ond, yn yr achosion mwyaf difrifol ac eithriadol, gellir gwrando'r achos gerbron Barnwr yr Uchel Lys yn eistedd gyda rheithgor. Yn Llys y Goron, y barnwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y treial yn cael ei gynnal yn deg ac am egluro'r gyfraith berthnasol i'r rheithgor. Y rheithgor sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r diffynnydd yn euog ai peidio.

Os bydd y rheithgor yn penderfynu bod y diffynnydd yn euog, bydd y barnwr wedyn yn penderfynu ar ddedfryd briodol. Bydd nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y ddedfryd: yn bennaf, difrifoldeb y drosedd, yr effaith y mae'r drosedd wedi'i chael ar y dioddefwr, a'r gyfraith berthnasol. Gall dedfrydau gynnwys carchar, dedfrydau gohiriedig, dedfrydau cymunedol, dirwyon, neu ryddhad.

Mae Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr yn gorff cyhoeddus annibynnol, anadrannol sy'n cyhoeddi canllawiau ar gyfer y mwyafrif o ddedfrydau er mwyn hyrwyddo mwy o gysondeb wrth ddedfrydu, gan gynnal annibyniaeth y farnwriaeth ar yr un pryd.

Teulu

Mae'r system cyfiawnder teuluol yn bodoli i helpu teuluoedd i ddatrys anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â materion teuluol yn gyflym a chyda chyn lleied o darfu â phosibl ar yr unigolion cysylltiedig.

Mae achosion llys teulu yn fwy anffurfiol na'r rhai mewn llys troseddol. Mae hyn yn adlewyrchu natur sensitif iawn achosion teulu yn aml a'r angen i sicrhau nad yw'r achosion yn cynyddu gofid y partïon cysylltiedig.

Cynhelir gwrandawiadau yn y llysoedd teulu yn breifat, ond gall y wasg a blogwyr cyfreithiol fod yn bresennol mewn gwrandawiad gyda chaniatâd y barnwr.

Tribiwnlysoedd

Mae'r Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf yn llysoedd arbenigol y mae eu barnwyr a'u haelodau'n gwrando ar ystod eang o achosion ym ymwneud â materion megis treth, eiddo, a mewnfudo a lloches. Mae'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn gwrando ar apeliadau sy'n herio rhai penderfyniadau tribiwnlysoedd.

Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun ar gyfer yr Arglwydd Ganghellor, o dan adran 43 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Bydd ei adroddiad ar gyfer 2026 yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr ar wefan judiciary.uk.

Y System Cyfiawnder Milwrol

Mae'r System Cyfiawnder Milwrol yn bodoli i gynnal disgyblaeth yn y Lluoedd Arfog a, thrwy hynny, helpu i gefnogi eu heffeithiolrwydd gweithredol. Mae'r Llysoedd Milwrol yn cynnwys y Llys Milwrol, y Llys Apêl Diannod (ar gyfer gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau diannod a wnaed gan Swyddogion Rheoli), a'r Llys Sifiliaid Milwrol (i wrando ar achosion dramor sy'n ymwneud â sifiliaid sy'n ddarostyngedig i ddisgyblaeth filwrol). Ceir dwy Ganolfan Llys Milwrol barhaol (Catterick yng Ngogledd Swydd Efrog a Bulford yn Wiltshire), a weithredir gan Wasanaeth y Llysoedd Milwrol. Gall y llysoedd eistedd dramor ar sail ad hoc.

Y Barnwr Adfocad Cyffredinol yw Pennaeth Barnwrol y Llysoedd Milwrol ac mae ganddynt dîm o Farnwyr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol. Mae'r holl farnwyr yn sifiliaid, a benodir drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol.

Y Llysoedd Milwrol, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n rheoli gweinyddiaeth y llysoedd eu hunain.

Crwneriaid

Mae crwneriaid yn ymchwilio i rai marwolaethau yr ystyrir eu bod yn annaturiol neu'n dreisgar, neu lle nad yw achos y farwolaeth yn hysbys.

Mae crwneriaid yn ddeiliaid swyddi barnwrol annibynnol. Maent yn fath o farnwr arbenigol sy'n ymchwilio i rai mathau o farwolaethau ac yn eu hegluro. Yn wahanol i weddill y farnwriaeth, caiff crwneriaid eu penodi gan awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, ceir 77 o ardaloedd crwneriaid ledled Cymru a Lloegr ac ariennir pob awdurdodaeth yn lleol.

Mae'r Prif Grwner yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol ei hun ar gyfer yr Arglwydd Ganghellor, o dan adran 36 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol

Yr Arglwyddes Brif Ustus

Yr Arglwyddes Brif Ustus (LCJ) yw Pennaeth Barnwriaeth Cymru a Lloegr a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr. Yr LCJ yw'r barnwr uchaf ei statws yng Nghymru a Lloegr.

Un o ddyletswyddau'r LCJ yw gwasanaethu fel Llywydd Adran Droseddol y Llys Apêl a Phennaeth Cyfiawnder Troseddol. Cefnogir yr LCJ yn y ddwy ddyletswydd hon gan Ddirprwy Bennaeth Cyfiawnder Troseddol, Is-lywydd y Llys Apêl (Adran Droseddol), a'r Uwch Farnwr Llywyddol.

Meistr y Rholiau

Meistr y Rholiau (MR) a Phennaeth Cyfiawnder Sifil yw'r ail farnwr uchaf eu statws yng Nghymru a Lloegr.

Yn wreiddiol, MR oedd yn gyfrifol am gadw siarteri, patentau a chofnodion dyfarniadau llys pwysig a ysgrifennwyd ar roliau memrwn yn ddiogel. Maent dal i fod yn gyfrifol am ddogfennau o bwysigrwydd cenedlaethol, gan eu bod yn Gadeirydd y Cyngor Ymgynghorol ar Gofnodion ac Archifau Gwladol.

Mae'r MR yn farnwr yn y Llys Apêl ac yn Llywydd ei Adran Sifil. Maent yn gyfrifol am leoli a threfnu gwaith barnwyr yr adran, yn ogystal â llywyddu yn un o'i llysoedd.

Mae'r Adran Sifil yn gwrando ar apeliadau yn erbyn rhai penderfyniadau gan dair adran yr Uchel Lys Barn a'u llysoedd arbenigol, gan gynnwys y Llys Gweinyddol. Gall hefyd wrando ar apeliadau o'r Llys Sirol, y Llys Teulu a rhai Tribiwnlysoedd. Mae hefyd yn ymdrin â cheisiadau am ganiatâd i apelio.

Yr MR ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yw Syr Geoffrey Vos. O 2 Tachwedd 2026 ymlaen, yn dilyn ymddeoliad Syr Geoffrey, Syr Colin Birss fydd yr MR.

Llywydd Adran Mainc y Brenin

Mae Llywydd Adran Mainc y Brenin (PKBD), sy'n aelod o'r Llys Apêl, yn arwain Adran Mainc y Brenin yn yr Uchel Lys. Mae gan y PKBD gyfrifoldeb cyffredinol am arwain, trefnu a lleoli ei barnwyr.

Mae gan Fainc y Brenin awdurdodaeth eang ac amrywiol, sy'n cwmpasu materion cyfraith sifil a chyhoeddus, ac awdurdodaethau arbenigol megis y Rhestrau Cyfryngau a Chyfathrebu a Chynllunio. Mae barnwyr Mainc y Brenin hefyd yn ymdrin â'r achosion troseddol mwyaf difrifol a chymhleth ledled Cymru a Lloegr.

Y PKBD ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yw'r Fonesig Victoria Sharp. O 1 Hydref 2026 ymlaen, yn dilyn ymddeoliad y Fonesig Victoria, Syr Mark Warby fydd y PKBD.

Llywydd yr Adran Deulu

Mae Llywydd yr Adran Deulu (PFD), a Phennaeth Cyfiawnder Teulu, yn arwain yr awdurdodaeth Deulu.

Yn ogystal â'r Llywydd – sy'n aelod o'r Llys Apêl – mae'r Adran Deulu yn cynnwys 19 o farnwyr yr Uchel Lys. Mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Ysgariad, gan gynnwys anghydfodau ynghylch plant, eiddo neu arian;
- Mabwysiadu, gwarcheidiaeth llys a materion eraill sy'n ymwneud â phlant; a
- Dyfarniadau ar ran y rhai nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, megis pobl sydd mewn cyflwr disymud parhaus.

Mae'r Adran Deulu hefyd yn ymdrin â materion profiant nad oes anghydfod yn eu cylch – sef cydnabyddiaeth gyfreithiol o ddilysrwydd ewyllys – yng Nghofrestrfa Brofiant yr Adran Deulu yn Llundain, ac yn yr 11 cofrestrfa brofiant yng Nghymru a Lloegr.

Y PFD presennol yw Syr Stephen Cobb.

.

Canghellor yr Uchel Lys

Canghellor yr Uchel Lys (CHC) yw Llywydd Adran Siawnsri yr Uchel Lys. Y Canghellor sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am weithrediad y Llysoedd Busnes ac Eiddo (BPCs) yn Llundain a chanolfannau'r BPC y tu allan i Lundain.

Mae'r CHC yn gyfrifol am restrau Siawnsri y BPCs, sy'n cynnwys y Rhestr Fusnes, y Rhestr Ansolfedd a Chwmnïau, y Rhestr Eiddo Deallusol (gan gynnwys Patentau ac IPEC), y Rhestr Ymddiriedolaethau Eiddo a Phrofiant, y Rhestr Cystadleuaeth, y Rhestr Ariannol (ar y cyd â'r Llys Masnachol) a'r Rhestr Refeniw.

O 1 Hydref 2026 ymlaen, bydd y BPCs sy'n gwrando ar waith o'r Adran Siawnsri, y Llys Technoleg ac Adeiladwaith a'r Llys Masnachol – sydd ar hyn o bryd yn eistedd ar draws Adran Mainc y Brenin a'r Adran Siawnsri – yn cael eu dwyn ynghyd o fewn un Adran Busnes ac Eiddo (BPD). Dan arweiniad Llywydd y BPD, ni fydd y BPD yn effeithio ar strwythur ehangach Adran Mainc y Brenin na gwaith y llysoedd a'r rhestrau presennol; bydd y strwythur newydd yn cefnogi lleoli barnwyr yn hyblyg ac yn golygu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth symlach.

Y CHC ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yw Syr Colin Birss. Syr Colin fydd y CHC olaf; o 1 Hydref ymlaen, ef fydd Llywydd cyntaf y BPD, cyn dod yn MR ar 2 Tachwedd.



Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, Syr James Dingemans, yn tyngu llw

Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Mae swydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (SPT) yn swydd farnwrol a grëwyd gan y Senedd drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Yr SPT yw pennaeth annibynnol barnwriaeth y tribiwnlysoedd neilltuedig yn y Deyrnas Unedig.

Yr SPT yw arweinydd barnwrol mwy na 5,000 o ddeiliaid swyddi barnwrol ac fe'u cefnogir gan 14 o Lywyddion Tribiwnlysoedd.

Mae gan yr SPT nifer o gyfrifoldebau statudol, sy'n cynnwys cynrychioli safbwyntiau barnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd gerbron y Senedd, yr Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion, a bod yn gyfrifol am hyfforddiant, lles a chanllawiau o fewn tribiwnlysoedd.

Yr SPT presennol yw Syr James Dingemans.

Yr Uwch Farnwr Llywyddol

Mae rôl yr Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ) yn un eang. Yn ogystal â bod yn aelod o Fwrdd GLlTEF, mae'r SPJ yn goruchwylio gwaith y Barnwyr Llywyddol ar bob Cylchdaith yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb cyffredinol am leoli barnwyr a dyrannu gwaith yn y llysoedd, ac ymdrin â materion personél ar gyfer barnwyr islaw lefel yr Uchel Lys. Yn ogystal, mae gan yr SPJ gyfrifoldeb arbennig am yr ynadaeth ac mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt a chyfathrebu cyffredinol rhwng y farnwriaeth, y llysoedd ac adrannau'r llywodraeth.

Yr SPJ presennol yw Syr Nicholas Green. O 1 Hydref 2026 ymlaen, bydd y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol presennol, y Fonesig Amanda Yip, yn dod yn SPJ.

O 1 Hydref 2026 ymlaen, bydd Mr Ustus Jeremy Johnson yn dod yn Ddirprwy Uwch Farnwr Llywyddol (DSPJ).

Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol

Mae Cadeirydd y Coleg Barnwrol yn darparu uwch arweinyddiaeth farnwrol ar gyfer rhaglen hyfforddi a chyfeiriad y Coleg. Maent yn cadeirio ei gorff llywodraethu, Bwrdd y Coleg Barnwrol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o farnwriaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae Cadeirydd y Coleg Barnwrol yn arwain y Bwrdd wrth bennu strategaeth y Coleg a goruchwylio'r gwaith o ddarparu hyfforddiant o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Yr Arglwyddes Ustus King yw Cadeirydd y Coleg Barnwrol.

Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Llesiant.

Daeth rôl y Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Llesiant yn rhan o'r JEB yn 2024, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae'r LCJ yn ei roi i'r gwaith hwn. Mae gwaith y barnwr yn cynnwys cefnogi'r LCJ yn ei chyfrifoldebau statudol i annog amrywiaeth farnwrol, ac arwain y gwaith o ddatblygu camau pellach i hyrwyddo amrywiaeth yn y farnwriaeth a diwylliant cynhwysol. Ymhlith gweithgareddau eraill, mae hyn yn cynnwys cadeirio Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol Cyngor y Barnwyr; goruchwylio'r gwaith o weithredu a gwerthuso Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y farnwriaeth; cydgysylltu â chyrff cynrychioliadol y proffesiynau cyfreithiol a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol; a chefnogi'r LCJ yng ngwaith y Bwrdd Amrywiaeth Barnwrol a Chyfreithiol, y mae'r LCJ yn ei gyd-gadeirio â'r Arglwydd Ganghellor.

Mae'r rôl hefyd yn cynnwys bod yn eiriolwr dros ddatblygu arweinyddiaeth a gallu ar draws y farnwriaeth. Mae'r cylch gwaith mewn perthynas â llesiant yn cynnwys cefnogi'r LCJ yn ei chyfrifoldebau statudol i gynnal trefniadau priodol ar gyfer lles y farnwriaeth, gan gynnwys goruchwylio'r ddarpariaeth lles ar gyfer barnwyr.


Yr Arglwyddes Ustus Whipple yw deiliad presennol y swydd.

Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol 2025-26

Mae'r JEB yn cynnwys yr aelodau canlynol:



Y Farwnes Carr o Walton-on-the-Hill
Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr




Syr Geoffrey Vos
Meistr y Rholiau



Syr Colin Birss
Canghellor yr Uchel Lys




Syr James Dingemans
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd



Y Fonesig Eleanor King
Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol



Y Fonesig Victoria Sharp
Llywydd Adran Mainc y Brenin



Syr Stephen Cobb
Llywydd yr Adran Deulu



Syr Nicholas Green
Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr



Y Fonesig Philippa Whipple
Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Llesiant



Michelle Crotty
Prif Weithredwr y Swyddfa Farnwrol

Wythnos Waith yr Arglwyddes Brif Ustus

Mae cipolwg ar wythnos waith arferol yr Arglwyddes Brif Ustus yn dangos ehangder y gwaith a gyflawnir gan yr uwch farnwriaeth.

Gan eistedd ar yr achosion mwyaf difrifol a phwysig yn y Llys Apêl, mae wythnos yr Arglwyddes Brif Ustus yn aml yn cynnwys amser a dreulir yn darllen papurau, yn eistedd yn y llys, ac yn drafftio neu'n traddodi dyfarniadau – a all gynnwys crynodebau i gynorthwyo cyfiawnder agored a thryloywder.

Y tu allan i'r llys, gall ei hwythnos hefyd gynnwys cyfarfodydd mewnol â deiliaid swyddi barnwrol, er enghraifft y rhai sy'n eistedd ar y Bwrdd Gweithredol Barnwrol, a barnwyr eraill sydd â chyfrifoldebau arweinyddol. Hi sy'n cynnal y brif berthynas â'r Prif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor, Ysgrifenyddion Gwladol eraill, a gweinidogion wrth gynrychioli'r farnwriaeth. Mae hi hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch-swyddogion GLITEF sy'n ymwneud â gweithrediad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Mae'n ymgymryd â gwaith megis cymeradwyo penodiadau i swyddi arweinyddol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol presennol, nad ydynt yn cael eu cynnal gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) annibynnol. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd yn eistedd ar banelau'r JAC (neu'n eu cadeirio), yn unol â'r gofynion a nodir yn adran 79 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.


Mae'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol ar y cyd am ddisgyblaeth farnwrol. Gyda chefnogaeth y Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol annibynnol, mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn penderfynu a oes camymddwyn wedi digwydd mewn perthynas â chwynion a wneir. Os bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwyddes Brif Ustus yn canfod bod camymddwyn wedi digwydd, byddant yn gosod sancsiwn ar y deiliad swydd farnwrol.

Yn unol â negeseuon allweddol neu feysydd ffocws y farnwriaeth, mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn traddodi areithiau neu ddarlithoedd yn rheolaidd, ac yn mynychu cynadleddau. Mae ganddi hefyd galendr blynyddol o ymweliadau â'r chwe chylchdaith farnwrol, sy'n cynnwys cyfarfodydd â barnwyr ac ynadon lleol, arsylwi gwrandawiadau ac achosion, a chyflawni gweithgarwch allgymorth megis ymweld ag ysgolion neu brifysgolion.

Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd rôl lysgenhadol eang, ac mae'n cyfarfod â sefydliadau ac unigolion, megis cymdeithasau barnwrol a phartneriaid cyfiawnder. Bydd yn aml yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau a gynhelir ar draws y proffesiwn cyfreithiol, er enghraifft yn yr Inns of Court neu'r Old Bailey.



Yr Arglwyddes Brif Ustus yn paratoi ar gyfer seremoni tyngu llw



Gwaith barnwyr ac ynadon



Sifil

Adran Sifil y Llys Apêl

Mae'r tueddiadau yn yr ystadegau a gyhoeddwyd yn adlewyrchu blwyddyn pan lwyddodd Adran Sifil y Llys Apêl i reoli nifer fawr o achosion cymhleth, proffil uchel ac o arwyddocâd cyfreithiol. Yn 2025, ffeiliwyd cyfanswm o 576 o apeliadau. Mewnfudo a lloches oedd y ffynhonnell fwyaf o apeliadau, gan gyfrif am 18% o'r holl apeliadau a ffeiliwyd. Cynyddodd cyfanswm yr achosion a gwblhawyd o 465 (yn 2024) i 504 (yn 2025), a gwrthod apeliadau oedd y math mwyaf cyffredin o achosion a gwblhawyd, sef 256 o achosion.

Roedd y sefyllfa o ran amseroldeb yn yr Adran Sifil yn amrywio. Er na fu unrhyw newid yn yr amser a gymerwyd o ffeilio Hysbysiad yr Apelydd hyd at y penderfyniad ynghylch Caniatâd i Apelio (PTA) o gymharu â 2024, gyda'r amser cyfartalog (cymedrig) yn parhau i fod yn 14 wythnos yn 2025, cynyddodd yr amser cyfartalog (cymedrig) o roi caniatâd i apelio hyd at ddechrau gwrandawiad apêl (o 29 wythnos yn 2024 i 31 wythnos yn 2025), a gostyngodd yr amser cyfartalog (cymedrig) o ddechrau gwrandawiad apêl hyd at draddodi dyfarniad (o saith wythnos i bum wythnos rhwng 2024 a 2025). (Mae'r holl ystadegau yn unol ag Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ionawr - Mawrth 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk, gan ddefnyddio'r data blynyddol yn nhablau'r Llysoedd Barn Brenhinol a Diwrnodau Eistedd.)

Mae'r llys yn croesawu'n gynnes y cyhoeddiad ynghylch penodi Syr Colin

Birss yn Feistr y Rholiau o 2 Tachwedd 2026 ymlaen. Yn ogystal, mae'r llys yn falch iawn o benodi saith barnwr newydd i'r Llys Apêl. Bydd y barnwyr newydd canlynol yn y Llys Apêl yn dechrau yn eu swyddi ar ddyddiadau amrywiol ar ôl 1 Hydref 2026: Mr Ustus Butcher, Mr Ustus Chamberlain, Mr Ustus Fancourt, Mrs Ustus Farbey, Mrs Ustus Lieven, Mr Ustus Meade a Mr Ustus Saini.

Mae'r Llys Apêl (Adran Sifil) yn parhau i gynnal y Cynllun Peilot Ffrydio Byw a gychwynnwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Agored a Thryloywder Barnwrol. Mae'r cynllun peilot hwn yn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad at ddadleuon fframwaith y partïon a dogfennau llys eraill mewn nifer o achosion dethol sy'n cael eu ffrydio'n fyw drwy sianel YouTube y farnwriaeth. Cafwyd canlyniadau hynod gadarnhaol o werthusiad gan y Swyddfa Farnwrol o ddefnyddwyr y llysoedd, a gynhaliwyd chwe mis ar ôl i'r cynllun peilot ddechrau gweithredu.

Mae'r llys yn bwriadu parhau i eistedd y tu allan i Lundain. Y tro diweddaraf iddo eistedd y tu allan i Lundain oedd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2026.

Yr Uchel Lys

Mae'r Uchel Lys yn cynnwys tair adran: Adran Mainc y Brenin (KBD), yr Adran Deulu, a hyd at fis Hydref 2026, yr Adran Siawnsri. Mae'r KBD yn cynnwys nifer o lysoedd arbenigol, gan gynnwys y Llys Gweinyddol, y Llys Masnachol, a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith.

Ym mis Hydref 2026, bydd y Llysoedd Busnes ac Eiddo (BPCs) sy'n gwrando ar waith o'r Adran Siawnsri, y Llys Technoleg ac Adeiladwaith a'r Llys Masnachol, sydd ar hyn o bryd yn eistedd ar draws Adran Mainc y Brenin a'r Adran Siawnsri, yn cael eu dwyn ynghyd o fewn un Adran Busnes ac Eiddo (BPD).

Bydd y BPD yn eistedd ochr yn ochr ag Adran Mainc y Brenin a'r Adran Deulu, fel tair adran yr Uchel Lys, gan gadw awdurdodaethau, arbenigedd a hunaniaeth bresennol ei llysoedd a'i rhestrau arbenigol.

Adran Mainc y Brenin

Mae ystadegau cyhoeddedig yn dangos bod cyfanswm o 5,476 o achosion wedi'u cychwyn yn Adran Mainc y Brenin (KBD) yn 2025 (hawliadau anaf personol ac esgeulustod clinigol oedd y mwyafrif ohonynt) (yn unol ag Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ionawr - Mawrth 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk, gan ddefnyddio'r data blynyddol yn nhablau'r Llysoedd Barn Brenhinol a Diwrnodau Eistedd). Yn 2025, cychwynnwyd 24,563 o achosion gorfodi yn y KBD. Mae'r ffigurau hyn yn dangos maint parhaus y gwaith sydd gerbron yr Adran, ac mae hynny'n parhau yn 2026. Mae'r KBD hefyd yn rheoli ystod eang o waith cymhleth a brys, gan gynnwys hawliadau mesothelioma a chlefydau eraill sy'n gysylltiedig ag asbestos, gwaharddebau, ymgyfreitha grŵp, hawliadau proffil uchel ac achosion sy'n codi materion o bwysigrwydd cyhoeddus neu genedlaethol. Mae achosion o'r fath yn gofyn am reolaeth weithredol gan fainc yr Uchel Lys ac yn gosod gofynion ychwanegol ar y farnwriaeth, gan gynnwys Meistri Mainc y Brenin.

Yn y Swyddfa Gweithred Newid Enw, mae canllawiau ar-lein gwell newydd i ddefnyddwyr bellach ar gael ar gov.

uk, gan arwain at lai o geisiadau'n cael eu dychwelyd oherwydd gwallau. Arweiniodd digideiddio'r broses yn rhannol ym mis Awst 2025 at gynnydd chwe gwaith yn nifer y ceisiadau. Mae prosiect parhaus yn asesu'r broses o drosglwyddo gwaith gweithredoedd newid enw i Dîm Gwasanaethau Cenedlaethol GLITEF er mwyn cefnogi gwasanaeth cwbl ddigidol o'r dechrau i'r diwedd, gan gadw goruchwyliaeth farnwrol Meistri Mainc y Brenin dros atgyfeiriadau.

Mae'r Rhestr Cyfryngau a Chyfathrebu wedi parhau i ymdrin ag effaith drawsnewidiol y cyfryngau cymdeithasol wrth ddarparu dulliau a chyfleoedd ar gyfer difenwi ac aflonyddu, yn ogystal â'r pwysau ar breifatrwydd a rhyddid i lefaru yng nghyd-destun cyfathrebu modern. Mae'r Rhestr Cyfryngau a Chyfathrebu wedi gwrando ar hawliadau proffil uchel, gan gynnwys rhai ynghylch honiadau o gasglu gwybodaeth yn anghyfreithlon gan bapurau newydd, ac wedi ystyried y ddeddfwriaeth newydd ar Ymgyfreitha Strategol yn erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd (SLAPPs).

Y Llys Gweinyddol

Mae'r llwyth gwaith yn cynyddu; cafwyd 1,328 o geisiadau am adolygiad barnwrol rhwng Ebrill a Mehefin 2026, cynnydd o 42% o'i gymharu ag Ebrill-Mehefin 2025 (yn unol ag **Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ebrill - Mehefin 2026** a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Hawliadau am adolygiad barnwrol yw prif waith y Llys Gweinyddol, ochr yn ochr ag apeliadau rheoleiddio proffesiynol ac estraddodi, ac apeliadau a cheisiadau mewn materion troseddol a diogelwch gwladol. Mae'r llys yn parhau i ymdrin ag achosion proffil uchel a chymhleth, ac mewn rhai achosion achosion sy'n wleidyddol ddadleuol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, terfysgaeth a mewnfudo. Mae'r system rheoli achosion ddigidol CE-File bellach ar gael yn y Llys Gweinyddol ar gyfer ffeilio'n electronig.

Cynyddodd nifer yr achosion a gafwyd yn y Llys Cynllunio rhwng 2024 a 2025, gan gynyddu o 369 i 404 (gweler **Tablau Blynyddol y Llysoedd Barn Brenhinol**), a disgwylir i hynny barhau. Mae'r llys wedi rheoli llwyth achosion byw cymharol sefydlog o achosion cynllunio sylweddol (fel y'u diffinnir yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil). Mae'r lefel uwch barhaus o gyfanswm o achosion a geir wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y llwyth achosion byw o achosion cynllunio eraill. Mae'r weithdrefn newydd ar gyfer herio prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol mewn grym. Mae hawliadau'r Llys Cynllunio yn parhau i gwmpasu ystod eang o faterion, gan gynnwys prosiectau ynni, canolfannau data a thrafnidiaeth, cynlluniau tai a diogelu'r amgylchedd.

Gwelodd Rhestr Sifil y KBD a'r Llys Gweinyddol niferoedd cynyddol o Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LiPs) yn gofyn am addasiadau rhesymol ac yn defnyddio deallusrwydd artiffisial (DA) i lunio eu hawliadau, sy'n gwella mynediad at gyfiawnder ond sydd hefyd yn gosod gofynion sylweddol ar staff y llysoedd a'r farnwriaeth. Yn aml, mae angen mwy o waith rheoli achosion er mwyn canfod pa rwymedi y mae'r LiP yn ei geisio mewn gwirionedd.

Y Llys Masnachol

Mae'r Llys Masnachol wedi cynnal ei safle amlwg fel canolfan flaenllaw yn y byd ar gyfer datrys anghydfodau busnes. Nododd International Data Insights Report Cymdeithas y Gyfraith ym mis Medi 2025 fod y Llys Masnachol yn "remains the leading international centre for the resolution of complex litigation, with parties coming from a record number of countries" (tudalen 2), gan ymdrin ag "disputes worth billions of pounds every year, using flexible procedures to resolve cases quickly and efficiently" (tudalen 3). Mae'r gyfran fawr o waith rhyngwladol yn adlewyrchu goruchafiaeth barhaus cyfraith ac awdurdodaeth Lloegr ymhlith dewisiadau'r partïon ar gyfer datrys anghydfodau. Mae hynny, yn ei dro, yn deillio o'r hyn y mae adroddiad TheCityUK ym mis Rhagfyr 2025 yn cyfeirio ato fel "the UK's enduring reputation as a rule of law jurisdiction, the flexibility and resilience of English law, and the excellence of the UK legal professionals and the services they provide" (tudalen 6). Mae'r Llys Masnachol yn chwarae rhan ganolog yn hyn oll. Mae'n parhau i ymdrin â threialon cymhleth, rhai ohonynt yn hir iawn, yn ogystal â llawer o wrandawiadau brys a chyflymedig. Mae hawliadau sy'n ymwneud â chyflafareddu yn ffurfio rhan sylweddol o waith y llys, gan adlewyrchu ei rôl fel y llys sy'n cefnogi ac yn goruchwylio sector cyflafareddu ffyniannus y DU.

Y Llys Technoleg ac Adeiladwaith

Mae'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith (TCC) yn parhau i fod yn eithriadol o brysur, gydag ystod eang o achosion yn cael eu gwrando yn Llundain ac yn y rhanbarthau. Mae anghydfodau rhyngwladol ac ymgyfreitha caffael proffil uchel yn parhau i ffurfio cyfran sylweddol o waith y TCC a gyflawnir yn Llundain. Mae nifer fawr o achosion yn parhau i ymwneud â'r adolygiad eang o ddigonolrwydd cladin a nodweddion diogelwch tân ar gannoedd o adeiladau ledled y wlad. Mae dyfarniadau'r TCC wedi darparu canllawiau i'r diwydiant ar gymhwyso Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, Gorchmynion Atebolrwydd Adeiladu a'u rhyngweithio â dyfarnu mewn anghydfodau adeiladu. Mae pwysigrwydd cynyddol DA wedi'i adlewyrchu mewn cyfres o ddigwyddiadau a fynychwyd yn dda, a drefnwyd ar gyfer barnwyr ac ymarferwyr gan Weithgor DA y TCC, yn ogystal â chanllawiau yng Nghanllaw newydd y TCC a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026.

Siawnsri

Mae swmp y gwaith yn Llysoedd Busnes ac Eiddo (BPCs) Cymru a Lloegr wedi aros yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu statws y llysoedd fel fforwm blaenllaw ar gyfer datrys anghydfodau busnes, gan gynnwys rhai o'r hawliadau sifil arbenigol domestig a rhyngwladol mwyaf cymhleth a phroffil uchel yn y byd.

Mae nifer yr achosion yn y Llys Ansolfedd a Chwmnïau wedi parhau i gynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn, gan adlewyrchu'r farchnad refeniw. Mae nifer yr achosion mewn materion ansolfedd wedi cynyddu 34% i 1,610 o achosion rhwng Gorffennaf 2025 a Mehefin 2026 o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, tra bod materion cwmnïau wedi cynyddu 14% i 9,840 o achosion (gweler Prif Dabl Ch2 y Llysoedd Busnes ac Eiddo (Tabl 1_1),

Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ebrill - Mehefin 2026.
Noder: Mae'r ffigurau ond yn cynnwys y rhai a restrir o dan Lysoedd Busnes ac Eiddo Cymru a Lloegr yn y Llysoedd Barn Brenhinol (Adeilad y Rholiau), gan nad oes data cyson ar gael ar gyfer y rhanbarthau.

Un o flaenoriaethau allweddol Canghellor yr Uchel Lys (CHC) yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y swydd fu cryfhau cydlyniant ar draws y farnwriaeth yn Adeilad y Rholiau ac ar draws y BPCs ehangach. Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, mae wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu sy'n agored i farnwyr ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys digwyddiadau mewnol rheolaidd a sesiynau hyfforddi ar y cyd ag ymarferwyr, cymdeithasau proffesiynol a defnyddwyr eraill y llysoedd. Mae hefyd wedi cynnal presenoldeb cryf ar draws y BPCs rhanbarthol drwy ymweliadau rheolaidd a chyfranogi mewn digwyddiadau fforwm, gan alluogi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ac ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr y llysoedd.

Mae cydlyniant hefyd wedi'i hyrwyddo drwy groesleoli, gan alluogi adnoddau barnwrol i gael eu defnyddio'n effeithiol drwy ganiatáu i farnwyr eistedd ar draws gwahanol adrannau, gan gynnwys barnwyr y Llys Masnachol yn eistedd yn yr Adran Siawnsri.

Mae grŵp defnyddwyr newydd wedi'i sefydlu ar gyfer y Rhestr Ariannol yn Adeilad y Rholiau, gan ddod â barnwyr, ymarferwyr a defnyddwyr ynghyd i sicrhau'r defnydd gorau o'r rhestr ac i ystyried sut y gellid gwneud gwelliannau.

Mae'r CHC, gyda chefnogaeth barnwyr Adeilad y Rholiau, wedi lansio menter i gefnogi'r barnwyr yn well, yn ogystal â defnyddwyr y llys. Bydd Nodyn Ymarfer i gyflwyno'r daenlen asesiadau cryno yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r costau sy'n gysylltiedig ag achosion i'r llys; mae hyn yn golygu y gall y barnwyr adolygu'r costau a'u diwygio lle bo angen, gan symleiddio'r broses.

Mae'r cynllun peilot ar gyfer y broses o drosglwyddo achosion o'r Llys Ansolfedd a Chwmnïau i Lys Sirol Canol Llundain wedi'i ymestyn er mwyn caniatáu adolygiad manwl.

Y Llys Sirol

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyfiawnder sifil wedi parhau i ganolbwyntio ar ddigideiddio, gwella perfformiad y Llys Sirol, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system cyfiawnder sifil.

Mae nifer yr hawliadau sifil a gafwyd yn y Llysoedd Sirol wedi parhau i gynyddu. Cafwyd 571,250 o hawliadau yn y Llysoedd Sirol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, cynnydd o 11% o gymharu â'r un cyfnod yn 2025. Hawliadau ariannol oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn, gyda'u nifer yn codi i 495,000 o hawliadau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026 (cynnydd o 13% o gymharu â mis Ebrill i fis Mehefin 2025). O gymharu â mis Ebrill i fis Mehefin 2025, gostyngodd nifer yr hawliadau am iawndal 4% i 26,000 rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer yr hawliadau am iawndal personol a hawliadau eraill am iawndal.

Cynyddodd nifer yr hawliadau a amddiffynnwyd 15% dros yr un cyfnod, tra gostyngodd nifer yr hawliadau a aeth i dreial 10%. Cynyddodd yr amser canolrifol rhwng cychwyn achos a threial ar gyfer hawliadau bychain ychydig, sef 0.7 wythnos, o gymharu â mis Ebrill i fis Mehefin 2025, gan gyrraedd 41 wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026. Fodd bynnag, gostyngodd yr amser canolrifol ar gyfer hawliadau ar y trac cyflym, y trac canolradd a'r aml-drac i 56 wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, gyda'r hawliadau hynny'n cael eu cwblhau ychydig dros chwe wythnos yn gynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2025. Mae hyn yn parhau â'r gwelliannau diweddar o ran amseroldeb. (Mae'r holl ystadegau yn unol ag Ystadegau chwarterol cyfiawnder sifil: Ebrill i Fehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk.)



Adeilad y Rholiau yn Llundain, canolfan arbenigol ar gyfer ymgyfreitha ariannol, busnes ac eiddo

Cyflawni cyfiawnder sifil

Digideiddio gwasanaethau sifil

Y ddau wasanaeth digidol sifil allweddol yw Hawliadau am Arian yn y Llys Sifil Ar-lein (OCMC) a Hawliadau am lawndal Ar-lein. Mae dros filiwn o hawliadau bellach wedi'u cychwyn gan ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae modd cael mynediad at achosion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, gan ganiatáu i bartïon gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hachosion cyfreithiol heb fod angen cysylltu â GLITEF. Mae'r ddau wasanaeth bellach ar gael fel prosesau digidol cyflawn o'r dechrau i'r diwedd, sy'n golygu y gellir cychwyn a rheoli hawliadau ar-lein hyd nes y gwneir gorchymyn terfynol. Ers mis Mai 2026, gellir cychwyn mwy o fathau o hawliadau'n ddigidol, wrth i Hawliadau am lawndal Ar-lein gael ei ehangu i ganiatáu hawlio rhwymedïau eraill. Mae'r amcan o ddileu'r defnydd o bapur o'r Llys Sirol yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir i'r tîm arweiniol barnwrol.

Mae'r Gwasanaeth Hawliadau Meddiant Digidol yn cael ei ddatblygu ar y platfform Data Achosion Craidd (CCD) presennol ar gyfer achosion Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd. Bwriedir i'r gwasanaeth alluogi hawliadau meddiant a gyflwynir o dan y drefn newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Hawliau Rhentwyr 2026 gael eu cychwyn a'u rheoli ar-lein. Bydd y gwasanaeth meddiant newydd yn darparu canllawiau clir i ddefnyddwyr, gwell gweledd o achosion, a dulliau mwy effeithlon o ymdrin ag achosion. Bydd y gwasanaeth meddiant yn cael ei gyflwyno fesul cam ar ôl ei brofi'n ofalus. Bydd y rheolau'n cael eu llunio gan y

Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC), a fydd yn caniatáu mynediad digidol i'r rhai sy'n gallu ei ddefnyddio, gan gadw mynediad drwy bapur i ddefnyddwyr sydd dan anfantais ddigidol.

Mae nifer o lwyddiannau nodedig wedi'u profi, gan gynnwys:

1. Gwell amseroldeb: Mae gwasanaethau digidol yn helpu defnyddwyr i symud hawliadau yn eu blaen yn fwy effeithlon drwy'r Llys Sirol. Mae data GLITEF, o **adroddiad ar Waith y Llys Sirol** a gyhoeddwyd ar wefan y Senedd, yn dangos bod achosion a reolir yn ddigidol yn symud yn eu blaen yn gyflymach na phrosesau papur tebyg, gan gefnogi gwelliannau ehangach o ran amseroldeb yn y Llys Sirol.
2. Mwy o ymgysylltiad gan ddefnyddwyr: Mae gwasanaethau digidol yn denu lefelau uwch o gyfranogiad gan ddiffynyddion sy'n defnyddio gwasanaeth OCMC. Mae gwell hygyrchedd a phrosesau cliriach yn galluogi mwy o ddiffynyddion i ymateb i hawliadau.
3. Cefnogi datrys anghydfodau: Mae gwasanaethau digidol yn ei gwneud yn haws i bartïon hysbysu'r llys pan fydd hawliad wedi'i dalu neu ei setlo. Mae prosesau symlach yn sicrhau bod achosion yn cael eu cwblhau'n brydlon; mae'r ddau beth yn galluogi gwell defnydd o adnoddau'r llysoedd.
4. Cynyddu capasiti barnwrol: Mae rôl estynedig cynghorwyr cyfreithiol ym maes rheoli achosion digidol yn rhyddhau amser barnwyr i ganolbwyntio ar yr achosion mwy cymhleth.
5. Gwell profiad ac argaeledd i'r defnyddiwr: Mae swyddogaethau digidol a hysbysiadau am weithgarwch achosion, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a dangosfyrddau hunanwasanaeth, yn darparu profiad mwy hygyrch sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, yn enwedig i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.
6. Mae datblygu system ddigidol dros dro ar gyfer ffeilio dogfennau, sef Rhannu Ffeiliau Sifil yn Awtomatig (CAFS), wedi dileu symiau sylweddol o bapur o'r llysoedd sirol a'r Ganolfan Fusnes Sifil Genedlaethol. Bydd CAFS yn cael ei gyflwyno i bob Llys Sirol cyn bo hir. Bydd ei ddefnyddio yn gwella ansawdd ffeiliau ac yn lleihau nifer y ffeiliau achos anghyflawn. Bydd yn lleihau'n sylweddol yr aneffeithlonrwydd a achosir gan drosglwyddo ffeiliau ffisegol.

Y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain

Rhoddodd y prosiect Atgyfeirio Awtomatig at Gyfryngu mewn Achosion Sifil (CARM) bolisi'r llywodraeth ar waith i atgyfeirio hawliadau a amddiffynnir sy'n llai na £10,000 yn orfodol i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain (SCMS). Disgwylir i'r cyfarwyddyd ymarfer peilot barhau tan 6 Ebrill 2027. Mae'r ffigurau hyd yma gan SCMS yn galonogol; ym mis Mawrth 2026, aeth mwy nag 8,000 o achosion i gyfryngu, o'i gymharu â 1,900 ym mis Mawrth 2024 (fel yr adroddwyd gan GLITEF mewn blog ar ei wefan: '**Edrych ymlaen: y bennod nesaf i'r llysoedd sifil**').

Y Cyngor Cyfiawnder Sifil

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r gwaith o foderneiddio'r system cyfiawnder sifil. Prif rôl y Cyngor yw cynghori'r Arglwydd Ganghellor, y farnwriaeth a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ar sut y gellir gwneud cyfiawnder sifil yn fwy hygyrch, teg ac effeithlon.

Cyhoeddodd y CJC dri adroddiad pwysig ar Ariannu Ymgyfreitha, Gorfodi a Chynhwysiant Digidol, gan fynd i'r afael â materion sylweddol sy'n effeithio ar fynediad at gyfiawnder a gweithrediad y system cyfiawnder sifil.

Cyhoeddodd Gweithgor Ariannu Ymgyfreitha'r CJC ei adroddiad terfynol ar Ariannu Ymgyfreitha ym mis Mehefin 2025, gan wneud argymhellion i sicrhau mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd i'r sector ariannu ymgyfreitha. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i ddeddfu ar argymhellion allweddol sy'n deillio o'r adroddiad, gan gynnwys adfer sicrwydd cyfreithiol yn dilyn penderfyniad Goruchaf Lys y DU yn achos PACCAR Inc. Roedd derbyniad cynnar y llywodraeth o'r argymhellion hyn yn arwydd o gymeradwyaeth sylweddol i ddadansoddiad y gweithgor ac yn dangos dylanwad uniongyrchol yr adroddiad ar ddatblygu polisi yn y maes hwn.

Cyhoeddodd y CJC hefyd ei ymgynghoriad ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (DA) wrth baratoi dogfennau llys. Bydd ei adroddiad terfynol yn gwneud cyfraniad sylweddol at y ddadl genedlaethol ynghylch rôl technolegau sy'n dod i'r amlwg o fewn y system gyfiawnder.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2025-26 y CJC ym mis Medi 2026.

Mae'r CJC wedi parhau â'i waith i wella amrywiaeth a chynhwysiant ei aelodau ac ar draws ei weithgareddau, gan gynnwys cynnal cyfarfod rhanbarthol o'r Cyngor a bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau yng Nghynllun Amrywiaeth y CJC. Cryfhawyd aelodaeth y CJC yn ystod y flwyddyn drwy benodi'r Barnwr Kevin Harper fel yr aelod sy'n Farnwr Rhanbarth, ynghyd ag wyth aelod newydd a benodwyd o ystod o gefndiroedd proffesiynol.

Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein

Sefydlwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC) o dan Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 i lunio rheolau sy'n llywodraethu ymarfer a gweithdrefn ar gyfer mathau penodol o achosion llys a thribiwnlys ar-lein ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd.

Ar 1 Mai 2025, rhoddodd offeryn statudol y pŵer i'r OPRC lunio rheolau mewn perthynas ag achosion meddiant ac achosion rhwymedïau ariannol teuluol. Ym mis Ionawr 2026, cofnododd y Pwyllgor fod cymeradwyaeth weinidogol wedi'i rhoi i ddechrau gweithio ar offeryn statudol pellach i ymestyn ei bwerau llunio rheolau i hawliadau ariannol, hawliadau am iawndal ac achosion cyflogaeth.

Mae'r OPRC hefyd wedi cyhoeddi ei Ddogfen Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyntaf ar ei fframwaith ar gyfer cynhwysiant digidol a chreu model cyn dwyn achos. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Medi 2025, ac mae'r model cyn dwyn achos yn parhau i fod yn faes gwaith allweddol i'r Pwyllgor.

Troseddol

Adran Droseddol y Llys Apêl

Yn dilyn ymddeoliad yr Arglwydd Ustus Holroyde, penodwyd yr Arglwydd Ustus Edis yn Is-lywydd y Llys Apêl, Yr Adran Droseddol (CACD), ym mis Hydref 2025. Nid oes amheuaeth bod achosion yn y CACD wedi dod yn fwy cymhleth, a bu cynnydd amlwg yn nifer yr achosion a atgyfeiriwyd gan y Twrnai Cyffredinol mewn perthynas â Dedfrydau Rhy Drugarog (yn unol â Chanlyniadau atgyfeiriadau dedfrydau rhy drugarog a gyhoeddwyd ar gov.uk). Mae'r llys hefyd wedi parhau i weld cynnydd mewn ceisiadau yng nghwrs achos, megis apeliadau gan yr erlyniad o dan adran 58 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yn dilyn y cynnydd i 393 o geisiadau a gafwyd (gan eithrio ceisiadau i euogfarnu a dedfrydu) yn 2025 (gweler Tablau Blynyddol y Llysoedd Barn Brenhinol). Mae natur frys llawer o'r achosion hyn yn golygu bod yn rhaid eu rhestru'n gyflym.

Yn ystod blwyddyn brysur arall, mae'r CACD wedi ymdrin â phwyntiau cyfreithiol newydd ac apeliadau proffil uchel. Yn benodol, caniataodd y llys sawl apêl yn erbyn dedfrydau o Garchar er Diogelu'r Cyhoedd a osodwyd flynyddoedd lawer yn ôl, gan gynnwys tair apêl yn dilyn atgyfeiriad gan y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC). Mae nifer o geisiadau am ganiatâd i apelio yn erbyn dedfrydau o'r fath wedi dod i law eleni, ac mae'r Cofrestrydd wedi neilltuo cynrychiolwyr cyfreithiol er mwyn galluogi'r llys i ystyried y ceisiadau'n briodol maes o law.


O ran ceisiadau am ganiatâd i apelio, mae'r barnwyr sy'n eistedd ar achosion troseddol wedi bod yn gweithio'n gyflym i leihau nifer y ceisiadau sydd heb eu penderfynu.

Mae staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol yn parhau i gynorthwyo'r nifer cynyddol o Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LiP) er mwyn hwyluso mynediad at gyfiawnder. Nodwyd y defnydd o DA wrth baratoi seiliau apêl gan LiP, ac mae'r CACD yn paratoi canllawiau ar hyn. Mae'r CACD yn ddiolchgar am gymorth Uned Apeliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) mewn perthynas â cheisiadau a gyflwynir gan LiP. Ceir Hysbysiadau'r Atebydd er mwyn cynorthwyo'r llys i ddeall ffeithiau'r achos a chyd-destun y materion a godwyd. Cydnabyddir y cynnydd yn llwyth gwaith Uned Apeliadau'r CPS wrth ddarparu cymorth o'r fath i'r llys.

Ymhlith deddfwriaethau eraill, eleni cyflwynwyd newidiadau i ddedfrydu drwy Ddeddf Dedfrydu 2026, gan gynnwys y rhagdybiaeth y dylid gohirio dedfrydau o 12 mis neu lai. Arweiniodd newidiadau i apeliadau mewn perthynas â gorchmynion ategol mewn achosion atafaelu, a gyflwynwyd gan Ddeddf Troseddu a Phlismona 2026, at gydweithio â'r Pwyllgor Rheolau Apeliadau Troseddol i ddiwygio'r ffurflenni a ddefnyddir mewn perthynas ag apeliadau o'r fath. Mae'r Cofrestrydd a'i staff hefyd yn ymwybodol o newidiadau eraill a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth, megis Gorchmynion Atal Camfanteisio'n Droseddol ar Blant, y bydd hawl i apelio yn eu herbyn i'r CACD.

Cynhaliwyd dau gyfarfod o Grŵp Defnyddwyr y CACD unwaith eto eleni, gyda phresenoldeb a chyfranogiad rhagorol gan ddefnyddwyr. Rhoddodd Cymdeithas Cyfreithwyr Apeliadau Troseddol gyflwyniad diddorol a defnyddiol a gododd faterion pwysig, gan gynnwys heriau sy'n effeithio ar y rhai sy'n aml yn gweithredu fel cynrychiolwyr cyfreithiol newydd wrth gyflwyno apêl. Mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cafodd yr Is-lywydd ei galonogi gan adborth a oedd yn cydnabod gwell cyfathrebu rhwng cwnsleriaid a'r Swyddfa Apeliadau Troseddol.

Mae'r CACD wedi eistedd yn rheolaidd ar gylchdaith yng Nghymru, ac eisteddodd Llys Apêl y Llys Milwrol yng Nghanolfan y Llys Milwrol yn Catterick. Llywyddodd yr Is-lywydd dros gyfres o apeliadau ac ymwelodd ag uned weithredol y Light Dragoons er mwyn dysgu mwy am system y llysoedd milwrol.



Llys 4 yn y Llysoedd Barn Brenhinol

Llys y Goron

Parhaodd Llys y Goron i wynebu pwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r llwyth achosion sy'n weddill yn parhau i fod yn uchel, gan gyrraedd uchafbwynt newydd o 80,829 o achosion agored ddiwedd mis Mehefin 2026 (yn unol ag Ystadegau chwarterol y llysoedd troseddol: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Parhaodd pob barnwr i ganolbwyntio ar leihau oedi, gwella amseroldeb, a sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n deg ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn ddiolchgar i'r holl farnwyr, yr ynadon, y cynghorwyr cyfreithiol, staff GLITEF, ymarferwyr a phartneriaid cyfiawnder troseddol am eu gwaith parhaus mewn amgylchiadau eithriadol o heriol.

Croesawyd penderfyniad yr Arglwydd Ganghellor i ganiatáu i Lys y Goron eistedd hyd at ei gapasiti llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027. Er bod mwy o ddiwrnodau eistedd nag mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y cynnydd yn nifer yr achosion yn golygu bod y llwyth achosion agored yn parhau i gynyddu, er ar gyfradd arafach yn ystod rhan olaf y flwyddyn adrodd. Mae'n hanfodol bod Llys y Goron yn gallu parhau i eistedd hyd at ei gapasiti llawn, ond dim ond un elfen o fynd i'r afael â'r ôl-groniadau yw capasiti barnwrol.

Mae nifer uchel o ddiffynyddion yn parhau i fod yn y ddalfa ar remand, ac mae'r pwysau sy'n deillio o geisiadau i ymestyn Terfynau Amser Cadw yn y Ddalfa yn cyfyngu ar gapasiti'r llysoedd.

Yn hyn o beth, croesawyd cyhoeddi Rhan 1 a Rhan 2 o'r Adolygiad

Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol, gan Syr Brian Leveson. **Ymatebodd yr Arglwyddes Brif Ustus ar 17 Gorffennaf 2026** i'r argymhellion hynny a gyfeiriwyd at y farnwriaeth. Tynnodd yr ymateb sylw at waith parhaus **Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol (CCIG)**, sef grŵp a arweinir gan y farnwriaeth ac a gadeirir gan yr Uwch Farnwr Llywyddol. Drwy ei chwe gweithgor, mae'r CCIG wedi parhau i chwarae rhan ganolog wrth sbarduno gwelliannau mewn effeithlonrwydd mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu pob parti yn y system, drwy ddod â'r farnwriaeth gyfan, GLlTEF, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid cyfiawnder troseddol ehangach ynghyd i nodi gwelliannau ymarferol ar draws y system.

Bu Gweithgor Rhestru'r CCIG yn gweithio'n agos â GLlTEF i archwilio'r defnydd o DA i gynorthwyo barnwyr (gyda chefnogaeth swyddogion rhestru) i wneud penderfyniadau rhestru, i ddiwygio'r llawlyfr rhestru, ac i ddatblygu offer rhestru digidol.

Carreg filltir arwyddocaol yn ystod y flwyddyn adrodd hon fu cyhoeddi **Cyfarwyddyd Ymarfer newydd yr Arglwyddes Brif Ustus ar Restru Achosion yn y Llysoedd Troseddol** ar 6 Gorffennaf 2026, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2026. Gyda diolch i'r Arglwydd Ustus Edis ac aelodau barnwrol eraill y gweithgor, mae'r Fframwaith yn darparu dull cenedlaethol cyson o flaenoriaethu achosion ar sail yr egwyddorion craidd o asesu effaith ddynol oedi ar y rhai sy'n cymryd rhan. Bydd pob un o'r 77 o ganolfannau Llys y Goron yng Nghymru a Lloegr bellach yn datblygu cynlluniau rhestru lleol yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, a fydd yn cael eu cyhoeddi, gan wella tryloywder i'r cyhoedd a defnyddwyr y llysoedd. Bydd datblygu cynlluniau lleol yn cefnogi ymgysylltu rhwng y llysoedd a'r proffesiynau cyfreithiol, ac yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar gael pan wneir penderfyniadau rhestru.

Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd yr Arglwyddes Brif Ustus **ganllawiau newydd ar Gysylltiadau Byw yn y Llysoedd Troseddol** ar 6 Gorffennaf 2026. Mae'r rhain yn cyflwyno fframwaith cenedlaethol clir ar gyfer defnyddio cyfranogiad o bell mewn achosion troseddol, gan gadw disgresiwn barnwrol er budd cyfiawnder. Gall cyfranogiad o bell gefnogi effeithlonrwydd a mynediad at gyfiawnder mewn achosion priodol, ond ni ddylai beryglu tegwch, awdurdod na'r gallu i gynnal achosion yn effeithiol.

Mae Gweithgor Cyfranogiad o Bell y CCIG hefyd wedi goruchwylio'r gwaith o bennu cwmpas Llysoedd Remand Rhithwir, Model Fideo Cenedlaethol ac atgyfeiriadau o'r Weithdrefn Un Ynad. Mae hefyd wedi ystyried gwella mynediad at gynadleddau cyn gwrandawiad i ddiffynyddion sydd yn y ddalfa ar remand a'u cynrychiolwyr cyfreithiol, a chefnogi tystion yr heddlu i fynychu rhai gwrandawiadau llys o bell.

Goruchwyliodd Gweithgor Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSR) y CCIG y gwaith o lansio Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i amseroldeb adroddiadau cyn dedfrydu, cynorthwyodd gyda'r gwaith o ddatblygu un templed digidol ar gyfer adroddiadau cyn dedfrydu ysgrifenedig ac offeryn dyrannu, a chynorthwyodd gyda'r gwaith o ddarparu adroddiadau dilysu ym mhob llys ynadon.

Mae Gweithgor DA y CCIG wedi arwain y ffordd o ran rhannu gwybodaeth ymhlith asiantaethau cyfiawnder troseddol ynghylch y defnydd presennol ac arfaethedig o DA. Mae'r grŵp wedi dod i gytundeb ynghylch yr angen am fesurau diogelu cadarn, gofynion tryloywder, rheolau llym ar gyfrinachedd a thrin data, a'r egwyddor bod yn rhaid i DA gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau gan bobl – nid cymryd ei lle. Mae hefyd yn cefnogi gwaith i ddatblygu, profi a gweithredu ystod o offer DA newydd i helpu i wella cynhyrchiant systemau.

Mae'r Gweithgor Arferion Gorau ar gyfer Rhestru Achosion Cam-drin Domestig wedi mireinio cwmpas yr achosion sy'n addas i'w cynnwys mewn canllawiau rhestru cenedlaethol newydd ar gam-drin domestig, ac wedi adolygu'r egwyddorion drafft ar gyfer y llysoedd ynadon a'r canllawiau drafft ar gyfer Llys y Goron sy'n cwmpasu Gwrandawiadau Ple ac ar gyfer Paratoi ar gyfer Treial, Adolygiadau Cyn Treial a Pharodrwydd ar gyfer Treial. Mae'r grŵp hefyd yn adolygu'r canllawiau cenedlaethol i gefnogi cynnydd cyflymach achosion cam-drin domestig drwy'r llysoedd troseddol.

Ar hyn o bryd, mae Gweithgor Rheoli Achosion yn Well (BCM) y CCIG yn datblygu opsiynau ymarferol i gynyddu ymwybyddiaeth o egwyddorion BCM ac i gefnogi cydymffurfiaeth â hwy.

Llys Ynadon

Llwyth achosion

Mae'r llwyth achosion yn y llys ynadon wedi parhau i fod yn uchel. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025, cafwyd 375,978 o achosion; rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026, cafwyd 386,095 o achosion; a rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, cafwyd 365,357 o achosion (yn unol ag Ystadegau chwarterol y llysoedd troseddol: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Recriwtio

Roedd 15,259 o ynadon mewn swyddi ar 1 Ebrill 2026 (yn unol ag Amrywiaeth y farnwriaeth: ystadegau 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk), gan gynnwys 1,657 o ynadon newydd a recriwtiwyd yn ystod blwyddyn ariannol yn 2025-26 (rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026).

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella amrywiaeth ar draws yr ynadaeth, gyda 55% o'r rhai a benodwyd yn 2025-26 yn fenywod, 17% o gefndir lleiafrif ethnig, a 36% o dan 50 oed (yn unol ag Amrywiaeth y farnwriaeth: ystadegau 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk). Mae'r farnwriaeth yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i adolygu adnoddau a phrosesau recriwtio er mwyn sicrhau bod y broses yn hygyrch ac yn deg i bob grŵp.

Gan ragweld diwygiadau arfaethedig i'r llysoedd ynadon a chynnydd disgwyliedig yn y llwyth achosion, mae gwaith ar y gweill i gynyddu capasiti'r llysoedd ynadon. Mae'r Rhaglen Cynyddu Nifer yr Ynadon, sef ymdrech ar y cyd rhwng y Swyddfa Farnwrol, GLITEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi'i sefydlu i wella'r broses o recriwtio, sefydlu a chadw ynadon er mwyn cyflawni'r uchelgais o gynyddu maint yr ynadaeth i 21,000 erbyn 2028-29. Ym mis Ebrill 2026, lansiwyd Tasglu Cenedlaethol Recriwtio Ynadon newydd i oruchwylio'r gwaith o recriwtio

miloedd yn rhagor o ynadon er mwyn cyrraedd y targed hwn. Yn ystod chwarter cyntaf 2026-27 (1 Ebrill i 30 Mehefin 2026), penodwyd 655 o ynadon newydd (yn unol ag Atodiad B o Ystadegau Amrywiaeth y Farnwriaeth a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Ymgynghoriad ar Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd y llywodraeth a'r farnwriaeth eu hymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad ar ddiwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs), a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2025. Penderfynwyd cadw'r 75 o ffiniau daearyddol presennol yn dilyn diddymu LJAs, gan alinio strwythurau gweinyddol y meinciau yn uniongyrchol ag LJAs presennol. Mae diwygio LJAs wedi bod yn waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd, ac yn enghraifft gref o gydweithio rhwng y farnwriaeth a'r llywodraeth, gyda chyngor gan swyddogion ar draws y Swyddfa Farnwrol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEF.

Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r ynadaeth

Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ) wedi cwblhau ei adolygiad o drefniadau llywodraethu'r ynadaeth, a gynhaliwyd ganddo dros y 18 mis diwethaf, gan gynnwys ymarfer ymgynghori i geisio barn ynadon. Bydd y strwythur newydd yn cael ei arwain gan Fwrdd Gweithredol yr Ynadon (MEB) ar lefel genedlaethol, gyda fforymau wedi'u hadnewyddu ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd ynadon yn cael eu cynrychioli ar bob lefel o'r broses o wneud penderfyniadau, a bydd llwybr clir ar gyfer uwchgyfeirio materion yn ogystal â dirprwyo cyfrifoldebau. Bydd y strwythurau'n cael eu sefydlu'n gadarn dros y misoedd nesaf, a disgwylir i gyfarfod cyntaf y MEB newydd gael ei gynnal ym mis Hydref 2026.

Y Weithdrefn Un Ynad

Ym mis Gorffennaf 2026, daeth yr archwiliad o'r Weithdrefn Un Ynad (SJP), a arweiniwyd gan y farnwriaeth, i ben, gyda'r gweithgor yn cyflwyno ei argymhellion i Fwrdd Gweithredol yr Ynadon (a oedd yn fwrdd dros dro ar y pryd). Daeth y gweithgor i'r casgliad bod yr SJP yn gweithredu'n fras fel y bwriadwyd o fewn y fframwaith statudol, gan wneud chwe argymhelliad ar gyfer gwelliannau i liniaru'r risgiau gweithredol a nodwyd. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys cryfhau hyfforddiant a chanllawiau i ynadon a chynghorwyr cyfreithiol, sefydlu safonau cyffredin ar gyfer ynadon sy'n eistedd ar ach.



Ynadon yn yr ystafell ymneilltuo yn Llys Ynadon San Steffan

Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr

Mae'r Cyngor Dedfrydu yn gorff annibynnol sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol â Pharagraff 5 o Atodlen 15 i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, mae gan Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr y teitl Llywydd Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr. Nid yw'r Llywydd yn aelod o'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio ei adroddiad blynyddol ei hun, a chyhoeddwyd yr un diweddaraf ar 9 Gorffennaf 2026.

Ar 6 Hydref 2025, penodwyd yr Arglwyddes Ustus May yn Gadeirydd y Cyngor Dedfrydu am gyfnod o dair blynedd, yn dilyn marwolaeth y Cadeirydd blaenorol, yr Arglwydd Ustus William Davis, ym mis Mehefin 2025.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd y Cyngor ymgyngoriadau cyhoeddus ar ganllawiau drafft ar gyfer 15 o droseddau yn ymwneud â thai, tair trosedd mewnfudo, a'r troseddau o ymosod ar gwnstabl heddlu a defnyddio trais i sicrhau mynediad. Ymgynghorodd hefyd ar ddiwygiadau arfaethedig i'r canllaw diwygiedig ar osod dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar, a grŵp o ganllawiau newydd a diwygiedig sy'n cwmpasu troseddau yn ymwneud ag eitemau ag ymyl llafnog. Cynhaliodd y Cyngor hefyd y pumed ymgynghoriad blynyddol ar ddiwygiadau amrywiol i ganllawiau dedfrydu, a daeth y newidiadau a ddeilliodd o hynny i rym ar 13 Gorffennaf 2026.

Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol

Roedd rhaglen waith sylweddol y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys llunio ystod eang o reolau a diwygiadau i reolau. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau diwygiedig ynghylch croesholi wedi'i recordio cyn treial, gorchmynion ymddygiad, gwŷsion y llysoedd ynadon a phwerau cynghorwyr cyfreithiol ynadon, a rheolau newydd i ategu darpariaethau statudol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, Deddf Dioddefwyr a'r Llysoedd 2026, Deddf Dedfrydu 2026 a Deddf Troseddu a Phlismona 2026.

Eleni, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn grwpiau traws-awdurdodaethol a oedd yn gweithio ar weithdrefnau dirmyg llys, cyfiawnder agored, a rheolau ynghylch defnyddio DA.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyflawni un o'r argymhellion (argymhelliad 101, Rhan II) a wnaed gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol. Mae gwaith yn parhau ar argymhellion eraill.

Teulu

Cyfraith Gyhoeddus

Mae achosion cyfraith gyhoeddus sy'n ymwneud â phlant yn cynnwys achosion a ddygir gan awdurdodau lleol i amddiffyn plentyn rhag niwed sylweddol a sicrhau eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026, cychwynnwyd 16,582 o achosion cyfraith gyhoeddus, o gymharu ag 16,270 o achosion a gychwynnwyd yn ystod yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2025. Ar gyfer achosion gofal a goruchwylio, yr amser cyfartalog (cymedrig) i gwblhau achos oedd 37 wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, i lawr o 38 wythnos yn ystod yr un cyfnod yn 2025. Roedd yr amser canolrifol, sef yr amser y cwblhawyd hanner yr achosion o'i fewn, ychydig yn is, sef 32 wythnos. Ar ddiwedd mis Mehefin 2026, roedd cyfanswm o 10,539 o achosion cyfraith gyhoeddus ar agor, o gymharu â 9,930 o achosion ar agor ar ddiwedd mis Mehefin 2025. (Mae'r holl ystadegau yn unol ag Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk.)

Cyfraith Breifat

Mae achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â phlant yn datrys anghydfodau rhwng rhieni neu eraill ac yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer gofal a llesiant plentyn yn y dyfodol.

Rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026, gwelodd y Llys Teulu gynnydd o 13% yn nifer y ceisiadau o'r fath: cychwynnwyd 59,032 o achosion cyfraith breifat, o gymharu â 52,127 o achosion a gychwynnwyd yn ystod yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2025. Yr amser cyfartalog (cymedrig) i gwblhau achosion cyfraith breifat oedd 33 wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026; mae hyn yn ostyngiad o dair wythnos o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd yr amser canolrifol yn sylweddol is, sef 25 wythnos yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026. Ar ddiwedd mis Mehefin 2026, roedd 41,637 o achosion cyfraith breifat yn dal ar agor. Mae hyn yn gynnydd o 36,571 ar ddiwedd mis Mehefin 2025, ac mae i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd sydyn yn nifer y ceisiadau. (Mae'r holl ystadegau yn unol ag Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk.)

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y byddai Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn (a elwid gynt yn Llysoedd Braenaru Cyfraith Breifat) yn cael eu cyflwyno'n genedlaethol ledled Lloegr dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn dilyn llwyddiant parhaus y safleoedd a fabwysiadodd y model yn gynnar, gan gynnwys ledled Cymru gyfan. Drwy'r model hwn, mae teuluoedd yn elwa ar ddull datrys problemau sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gwahanu, gan fynd i'r afael â'r risgiau ar yr un pryd. Mae'r model yn galluogi'r Llys Teulu i wneud penderfyniadau diogel heb oedi. Mae gwasanaethau cymorth arbenigol lleol ar gyfer cam-drin domestig yn cymryd rhan yn y broses hon pan godir cam-drin domestig fel mater.

Cyflwynwyd model y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn Swydd Amwythig a'r Ardal Ddu, Swydd Stafford, a Henffordd a Chaerwrangon ym mis Tachwedd 2025, ac yn Hampshire ac Ynys Wyth ym mis Ionawr 2026. Ymunodd yr ardaloedd hyn â'r ardaloedd presennol: Gogledd Cymru a Dorset ym mis Chwefror 2022, De-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2024, Birmingham ym mis Mai 2024, Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Mawrth 2025 a Gorllewin Swydd Efrog ym mis Mehefin 2025. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd bod yr amser a gymerir i ddatrys achos yn derfynol wedi gostwng yn sylweddol o dan y model, bod y llwyth achosion agored wedi gostwng mwy na 50%, a bod canran y plant sy'n rhan o'r achosion sy'n cael eu gweld gan Gynghorydd Llys Teulu o Cafcass Cymru neu Cafcass (neu, lle bo'n berthnasol, gan weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol) – er mwyn canfod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u profiadau bywyd – wedi mwy na dyblu (gweler Datganiadau ysgrifenedig – Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig – Senedd y DU).

Y Llys Rhwymedi Ariannol

Mae'r Llys Rhwymedi Ariannol yn helpu i sicrhau, yn dilyn methiant priodas neu bartneriaeth sifil, bod materion ariannol teuluoedd yn cael eu datrys yn deg ac yn effeithlon.

Rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026, gwnaed 49,620 o geisiadau am rwymedi ariannol, cynnydd o 9% o gymharu â 45,375 o geisiadau yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026, roedd 36,260 o'r ceisiadau eisoes wedi'u cytuno ac yn gofyn am orchymyn cydsynio yn unig, tra bod 13,360 o geisiadau yn destun anghydfod (cynnydd o 15% o gymharu ag 11,599 yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025), sy'n golygu bod cydsyniad wedi'i roi mewn 73% o'r ceisiadau. (Mae'r holl ystadegau yn unol ag Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk.)



Llysoedd Teulu, Ieuenctid ac Ynadon Norwich

Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod (CoP) yn llys arbenigol sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion ariannol neu les ar ran pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau hynny drostynt eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026, cafodd CoP 44,021 o geisiadau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae hyn yn gynnydd o 5,568 o geisiadau (14%) o'i gymharu â'r flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, pan gafwyd 38,453 o geisiadau. (Yn unol ag Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Gorchmynion Amddifadu o Ryddid

Mae'n bosibl y bydd angen lleoli plant sydd mewn perygl o achosi niwed difrifol iddynt eu hunain neu i eraill mewn trefniadau sy'n cyfyngu ar eu rhyddid a'u rhyddid i symud. Ers 2022, mae ceisiadau i amddifadu pobl ifanc o'u rhyddid o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys wedi'u cychwyn yn y Llysoedd Barn Brenhinol, fel rhan o'r Rhestr Genedlaethol Amddifadu o Ryddid.

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Mehefin 2026, cafwyd 1,575 o geisiadau. Mae hyn yn gynnydd o 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Yn unol ag Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu: Ebrill - Mehefin 2026 a gyhoeddwyd ar gov.uk).

Cymru

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y farnwriaeth yng Nghymru i gryfhau'r system gyfiawnder mewn gwlad sydd â'i hiaith ei hun, ei sefydliadau ei hun a chorff cynyddol o gyfraith Cymru, gan barhau i fod yn rhan o awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr. Parhaodd yr Arglwyddes Brif Ustus i ymgysylltu'n agos â Chymru drwy ymweliadau, cyfarfodydd a Phwyllgor Cymru Cyngor y Barnwyr, gan weithio gydag uwch-farnwyr, ynadon, barnwyr tribiwnlysoedd, GLITEF Cymru a phartneriaid cyfiawnder ehangach.

Ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus â Bangor ym mis Hydref 2025 i fynychu Cynhadledd Cymru'r Gyfraith a gynhelir yn flynyddol, cyfarfod o Gymdeithas Barnwyr Cymru, a'r gwasanaeth i nodi agoriad y flwyddyn gyfreithiol yng Nghadeirlan Bangor. Darparodd y gynhadledd fforwm pwysig ar gyfer trafod datblygiadau cyfansoddiadol a chyfreithiol yng Nghymru, gan gynnwys y pwysau o fewn y system cyfiawnder troseddol, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y proffesiynau cyfreithiol, a strwythur tribiwnlysoedd yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd yr ymgysylltiadau hyn yn cynnig cyfle gwerthfawr i glywed yn uniongyrchol gan farnwyr, ymarferwyr, academyddion a swyddogion cyhoeddus o bob rhan o Gymru ac i gryfhau perthnasoedd ar draws sector cyfiawnder Cymru.

Daeth carreg filltir hanesyddol ar 2 Chwefror 2026 pan roddodd yr Arglwyddes Brif Ustus dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd. Dyma'r tro

cyntaf i unrhyw Brif Ustus roi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd. Siaradodd am hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg, y corff cynyddol o gyfraith Cymru, yr ysbryd cydweithredol cryf ymhlith y farnwriaeth yng Nghymru, a'r polisi hirsefydlog y dylid gwrando ar achosion o Gymru yng Nghymru. Roedd y sesiwn hefyd yn cwmpasu mynediad at gyfiawnder, cyflwr adeiladau'r llysoedd, amseroedd aros ac ôl-groniadau, a'r cydweithio cadarnhaol rhwng y farnwriaeth a GLlTEF Cymru. Darparodd gyfle cyhoeddus pwysig i egluro gwaith y farnwriaeth yng Nghymru ac i gydnabod y cyd-destun cyfreithiol a chyfansoddiadol unigryw y gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru ynddo.

Tynnodd yr Arglwyddes Brif Ustus sylw hefyd at arloesiadau llwyddiannus sy'n cael eu datblygu neu eu hehangu yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn (a elwid gynt yn Llysoedd Braenaru) ledled Cymru, sydd wedi trawsnewid y ffordd y mae'r Llys Teulu yn ymgysylltu â rhieni drwy fabwysiadu model datrys problemau sy'n ystyried llais y plentyn yn gynnar yn y broses. Cyfeiriodd hefyd at ehangu'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig yng Ngogledd Cymru, y llys datrys problemau sy'n canolbwyntio ar fenywod yn Llys Ynadon Abertawe, a'r cynllun peilot cysylltiadau byw ar gyfer tystion yr heddlu yn Llys Ynadon Merthyr Tudful. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos rôl barhaus Cymru wrth brofi dulliau ymarferol sy'n gwella profiad defnyddwyr y llysoedd ac yn cefnogi canlyniadau gwell.

Yn ystod yr ymweliad ym mis Chwefror, eisteddodd yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd yn y Llys Apêl (Adran Droseddol) yng Nghaerdydd a chyfarfu â Phrif Weinidog Cymru, y Farwnes Eluned Morgan AS. Roedd eu trafodaethau'n cwmpasu ystod o faterion yn ymwneud â gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys y pwysau ar y system gyfiawnder ac ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Parhaodd darpariaeth Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol. Parhaodd y farnwriaeth i gefnogi'r egwyddor y dylai defnyddwyr llysoedd yng Nghymru allu defnyddio'r Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny, ac y dylai'r system ymateb mewn ffordd ymarferol a chynaliadwy. Roedd y gwaith yn cynnwys ymgysylltu â materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch gallu'r farnwriaeth i ddefnyddio'r Gymraeg, cynllunio'r gweithlu a mynediad at gyfiawnder drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiodd y gwaith hwnnw'r angen i gyfuno capasiti barnwrol Cymraeg â lleoli barnwyr yn hyblyg, cymorth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu, hyfforddiant a chynllunio clir.

Cafwyd nifer o fentrau Cymraeg amlwg. Mae adroddiadau blynyddol yr Arglwyddes Brif Ustus wedi'u cyhoeddi'n ddwyieithog, a chyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol hefyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Traddodwyd dyfarniad y Llys Adrannol ynghylch Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn y ddwy iaith. Aeth gwaith rhagddo hefyd ar gynllun peilot i gynyddu nifer y dyfarniadau gan y Llys Gweinyddol yng Nghymru a gyhoeddir yn ddwyieithog, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus Cymru neu ddeddfwriaeth Cymru. Yn ogystal, cymeradwyodd y Coleg Barnwrol gyllid

ar gyfer hyfforddiant arbenigol i helpu barnwyr i eistedd yn Gymraeg. Mae'r mentrau hynny'n cefnogi statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg ac yn helpu i feithrin hyder y cyhoedd yn y llysoedd. Cyhoeddwyd nifer o negeseuon cyfathrebu mewnol allweddol gan yr Arglwyddes Brif Ustus ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol yn Gymraeg hefyd, a chyfieithwyd yr Arolwg Agweddau Barnwrol i'r Gymraeg am y tro cyntaf eleni.

Yn dilyn ymweliad Ei Hanrhydedd y Barnwr Mererid Edwards â Chanada ym mis Chwefror 2026, fel rhan o ddirprwyaeth o Gymru a oedd yn archwilio cyfiawnder dwyieithog, sefydlwyd Grŵp Gweithredu o dan ei harweinyddiaeth. Ystyriodd y grŵp y gwersi o Ganada ynghylch deddfwriaeth ddwyieithog, arferion yn ystafell y llys, hyfforddiant barnwrol a chymorth ymarferol ar gyfer cyfiawnder drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi camau y gellid eu haddasu'n realistig ar gyfer Cymru o fewn yr awdurdodaeth sengl a threfniadau cyfreithiol presennol Cymru.

Ystyriwyd hefyd gapasiti barnwrol Cymraeg a phenodiadau. Roedd gwaith gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a'r Swyddfa Farnwrol yn cefnogi terminoleg gliriach ar gyfer penodiadau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, gan



Senedd Cymru yng Nghaerdydd

gynnwys disgrifiadau cliriach o lefelau hyfedredd yn y Gymraeg. Ystyriodd cynigion ar gyfer recriwtio Dirprwy Farnwyr Rhanbarth yng Nghymru yn y dyfodol sut y gellid cryfhau capasiti Cymraeg mewn ardaloedd lle mae angen gweithredol penodol. Y nod yw gwella gallu mewn ffordd realistig ac wedi'i thargedu, heb drin dwyieithrwydd fel gofyniad cyffredinol ar gyfer lleoli pob barnwr.

Parhaodd Pwyllgor Cymru Cyngor y Barnwyr i ddarparu fforwm ar gyfer materion sy'n effeithio ar lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru. Roedd ei waith yn cynnwys paratoi ar gyfer ymddangosiad yr Arglwyddes Brif Ustus gerbron y Senedd, ystyried cyfiawnder dwyieithog, a thrafod cynigion ymarferol yn dilyn gwaith cymharol ar systemau cyfreithiol dwyieithog. Cefnogodd y Pwyllgor hefyd gysylltiadau agosach rhwng barnwriaeth y llysoedd, barnwriaeth y tribiwnlysoedd a rhanddeiliaid cyfiawnder Cymru.

Yn gyffredinol, dangosodd y cyfnod adrodd fod y farnwriaeth yng Nghymru yn hyderus, yn gydweithredol ac yn edrych tuag allan. Cefnogodd fynediad at gyfiawnder, cryfhau darpariaeth ddwyieithog, annog arloesedd, a chynnal ymgysylltiad adeiladol â sefydliadau Cymru, gan ddiogelu annibyniaeth farnwrol ac awdurdodaeth gyffredin Cymru a Lloegr.

Crwneriaid

Mae awdurdodaeth y Prif Grwner yn ymestyn ar draws Cymru a Lloegr ac yn cwmpasu ystod o bwerau a chyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r rhain yn cynnwys goruchwylio'r system grwneriaid, darparu arweinyddiaeth farnwrol genedlaethol, cyhoeddi canllawiau, cymeradwyo hyfforddiant a monitro cysondeb safonau rhwng ardaloedd crwneriaid.

Mae'r Prif Grwner wedi parhau i oruchwylio gwaith sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws ardaloedd crwneriaid drwy ganllawiau wedi'u diweddaru, deunyddiau hyfforddi diwygiedig, ac ymgysylltu â chrwneriaid mewn fforymau cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach i adolygu a moderneiddio canllawiau'r Prif Grwner er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n hygyrch, yn gyfredol ac yn ymateb i ddatblygiadau yn y gyfraith ac ymarfer.

Mae ystadegau blynyddol crwneriaid 2025, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mai 2026, yn cwmpasu'r flwyddyn galendr ac yn dangos gostyngiad yn nifer y marwolaethau yr adroddwyd amdanynt i grwneriaid. Adroddwyd am gyfanswm o 147,800 o farwolaethau i grwneriaid yn 2025; sef gostyngiad o 15% o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol a'r lefel isaf a gofnodwyd ers 1995. Parhaodd nifer y marwolaethau yr adroddwyd amdanynt i grwneriaid i ostwng, gyda gostyngiad bach hefyd yn nifer yr archwiliadau post-mortem (gorchmynnwyd 75,900 yn 2025, sef

gostyngiad o 7% o'i gymharu â 2024), a gostyngiad bach yn nifer y cwestau a agorwyd yn ystod y flwyddyn (36,000 yn 2025, sef gostyngiad o 2% o'i gymharu â 2024). Mae cyfran y cwestau a agorwyd o gymharu â nifer y marwolaethau yr adroddwyd amdanynt ar ei lefel uchaf ers dechrau'r gyfres amser flynyddol yn 1995, sef 24%. Arhosodd yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau cwest yn sefydlog ar 31 wythnos. Er bod y niferoedd cyffredinol wedi gostwng, mae crwneriaid yn parhau i adrodd am gymhlethdod cynyddol mewn llawer o ymchwiliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â marwolaethau yn nalfa'r wladwriaeth, rhwymedigaethau o dan Erthygl 2 ac asiantaethau allanol.

Mae **Adroddiadau i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol** yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar waith crwneriaid. Yn ystod y flwyddyn, diwygiodd y Prif Grwner y **polisi cenedlaethol sy'n llywodraethu cyhoeddi** Adroddiadau i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol ac ymatebion iddynt. Bwriad y newidiadau oedd gwella cysondeb, tryloywder a hygyrchedd i'r cyhoedd, ac roedd canllawiau, templedi a phrosesau cyhoeddi wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â hwy. Mae'r trefniadau diwygiedig hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi manylion sefydliadau ac unigolion sy'n methu ag ymateb i adroddiadau o fewn y cyfnod statudol, gyda'r nod o gryfhau atebolrwydd a chefnogi lledaenu'n ehangach y gwersi a nodwyd drwy ymchwiliadau crwneriaid.

Ym mis Medi 2026, cyhoeddodd y Prif Grwner ei **Hadroddiad Blynyddol statudol** i'r Arglwydd Ganghellor, yn cwmpasu blwyddyn galendr 2025, yn unol ag adran 35 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r adroddiad yn cynnwys asesiad o gysondeb safonau rhwng ardaloedd crwneriaid, Adroddiadau i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, marwolaethau personél y lluoedd arfog ac ymchwiliadau hirfaith, ynghyd â sylwadau ar ddatblygiadau allweddol sy'n effeithio ar y system grwneriaid.

Y System Cyfiawnder Milwrol

Y Farnwriaeth

Mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol (JAG), Ei Anrhydedd y Barnwr Alan Large, wedi bod yn bennaeth barnwrol y Llysoedd Milwrol ers 2020. Bydd yn ymddeol ym mis Mehefin 2027, a bydd cystadleuaeth i benodi olynydd yn cael ei lansio yn hydref 2026.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gofynnwyd i'r JAG roi sylwadau ar nifer sylweddol o ddarnau o ddeddfwriaeth ddrafft fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Bil Lluoedd Arfog pob pum mlynedd, ac wrth iddo fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Mae swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gyfrifol am y Bil yn gyfarwydd â'r confensiynau sy'n llywodraethu sylwadau barnwrol ar ddeddfwriaeth ddrafft.

Yn anffodus, bu farw'r Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol (AJAG) Andrew Smith yn ddisymwth ac yn annisgwyl ym mis Tachwedd 2025. Roedd yn farnwr rhagorol ac yn ddyn rhagorol, ac mae colled fawr ar ei ôl. Mae

cystadleuaeth i benodi olynydd i AJAG Smith ar y gweill ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae dau Ddirprwy Farnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol (DAJAG), sef DAJAG Sarah Magill a DAJAG Holly Scott-Mason, wedi bod yn eistedd ar achosion yn y Llys Milwrol. Mae DAJAGs yn farnwyr sy'n derbyn ffi, ac maent yn ychwanegu hyblygrwydd i'w groesawu at yr adnoddau barnwrol sydd ar gael yn y Llysoedd Milwrol.

Nifer yr achosion

Gwelwyd cynnydd arall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn nifer personél y Lluoedd Arfog a ddaeth gerbron y Llys Milwrol. Yn ystod y cyfnod rhwng 22 Gorffennaf 2025 a 21 Gorffennaf 2026, rhoddwyd 282 o aelodau unigol o bersonél y Lluoedd Arfog ar brawf a phenderfynwyd ar eu hachosion. Mae hyn yn cymharu â 221 o unigolion y penderfynwyd ar eu hachosion yn ystod y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 28%. Roedd cyfran yr achosion a oedd yn ymwneud â throseddau rhywiol yn 30%, o'i gymharu â 27% yn ystod y flwyddyn flaenorol. (Mae'r holl ffigurau yn unol â gwybodaeth reoli fewnol Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol.)

Amseroedd rhestru

Dylid rhestru Gwrandawiadau Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial o fewn 42 diwrnod i'r adeg y bydd Awdurdod Erlyn y Lluoedd Arfog (SPA) yn cyfarwyddo bod achos yn mynd rhagddo. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad allweddol (KPI) ar gyfer Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol (MCS), ac mae'r Gwasanaeth wedi cyrraedd y targed hwn mewn 98% o achosion rhwng Ionawr a Mawrth 2026, ac mewn 91% o achosion rhwng Ebrill a Mehefin 2026. Yr amser aros cyfartalog rhwng cyfarwyddyd gan yr SPA a threial yn y Llys Milwrol, ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, yw 169 diwrnod, neu tua phum mis a hanner, o'i gymharu â 156 diwrnod, neu tua phum mis, yn ystod y flwyddyn flaenorol. Y ffactor mwyaf cyffredin sy'n golygu bod angen rhestru achosion y tu hwnt i'r targed KPI yw argaeledd cwnsleriaid yr amddiffyniad. (Mae'r holl ffigurau yn unol â gwybodaeth reoli fewnol Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol.)

Mae blaenoriaethu achosion cymhleth gan y Llysoedd Milwrol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â honiadau o dreisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol, yn ffordd bwysig o sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn amserol er budd dioddefwyr a diffynyddion, a thrwy hynny gefnogi effeithiolrwydd gweithredol y Lluoedd Arfog.

Cyhoeddi sylwadau dedfrydu

Mae'r polisi wedi'i ddiwygio ynghylch cyhoeddi sylwadau dedfrydu ar wefan Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol (MCS) mewn achosion yn y Llys Milwrol sy'n arwain at ddiswyddo o'r Lluoedd Arfog. Lle bo'n briodol, ymgynghorir â'r dioddefwr, drwy'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol y bydd y sylwadau dedfrydu'n cael eu cyhoeddi ac i wirio eu bod yn fodlon ar y golygiadau i guddio gwybodaeth er mwyn osgoi datgelu pwy ydynt.

Materion gweithredol

Mae nifer o achosion o dan adran 28 wedi cael eu gwrando eleni, lle defnyddir prif holiad wedi'i recordio ar gyfer tystion agored i niwed, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud â honiadau o dreisio a mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gyda rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r 1980au a'r 1970au.


Eisteddodd Llys Apêl y Llys Milwrol am y tro cyntaf yng Nghanolfan y Llys Milwrol yn Catterick ym mis Mehefin 2026. Gwnaed defnydd effeithiol o dechnoleg drwy roi mynediad i'r barnwyr apêl at Case Center, y system rheoli achosion ddigidol yng Ngwasanaeth y Llysoedd Milwrol (MCS). Darparwyd holl ddogfennau'r achosion yn electronig i'r barnwyr apêl ar gyfer yr holl apeliadau a wrandawyd yn Catterick. O ganlyniad, gofynnwyd i MCS rannu ei arbenigedd a'i brofiad ym maes rheoli achosion digidol â chydweithwyr yn GLITEF sy'n gyfrifol am ddigideiddio prosesau yn y Llys Apêl.



Canolfan y Llys Milwrol Catterick, Gogledd Swydd Efrog



Y Farnwriaeth Fodern



Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y farnwriaeth adnoddau priodol, ei bod wedi'i pharatoi'n dda ar gyfer y dyfodol, a'i bod yn amrywiol ac yn gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan y Coleg Barnwrol o'r safon uchaf, nid yn unig o ran gwybodaeth gyfreithiol a sgiliau barnwrol, ond hefyd o ran y gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau proffesiynol sy'n sail i hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder ac sy'n cefnogi enw da parhaus Cymru a Lloegr fel awdurdodaeth o safon fyd-eang.

Cefnogir yr Arglwyddes Brif Ustus i gyflawni'r amcanion hyn gan ddau aelod o'r JEB: Cadeirydd y Coleg Barnwrol, yr Arglwyddes Ustus King, a'r Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Llesiant, yr Arglwyddes Ustus Whipple. Mae Cyngor y Barnwyr hefyd yn cefnogi'r Arglwyddes Brif Ustus i gyflawni ei dyletswyddau statudol, gan gynnwys drwy benodi tri aelod o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a chadeirio gweithgorau a phwyllgorau. Pwyllgorau presennol Cyngor y Barnwyr, a'u Cadeiryddion, yw:

- Pwyllgor Cyswllt Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (a gadeirir gan yr Arglwyddes Ustus Asplin)
- Pwyllgor Cyfathrebiadau (a gadeirir gan Mr Ustus Constable)
- Pwyllgor Amrywiaeth (a gadeirir gan yr Arglwyddes Ustus Whipple)
- Pwyllgor Adnoddau Dynol Barnwrol (a gadeirir gan Mrs Ustus Heather Williams)
- Pwyllgor Rhyngwladol (a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Ustus Snowden hyd nes iddo gael ei ddyrchafu i Oruchaf

Lys y DU ym mis Mehefin 2026; penodir cadeirydd newydd ar ddechrau blwyddyn gyfreithiol 2026-27)

- Pwyllgor y Llyfrgell (a gadeirir gan Mr Ustus Andrew Baker)
- Pwyllgor Adnoddau (a gadeirir gan Ei Hanrhydedd y Barnwr Raeside)
- Pwyllgor Diogelwch (a gadeirir gan Mr Ustus Martin Spencer)
- Pwyllgor y Tribiwnlysoedd (a gadeirir gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd)
- Pwyllgor Cymru (a gadeirir gan yr Arglwyddes Brif Ustus)

Mae gan bob deiliad swydd farnwrol gyfrifoldeb ar y cyd i feithrin amgylchedd cadarnhaol, yn y llys a'r tu allan iddo, lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch. Mae'n ofynnol i'r farnwriaeth ddilyn y **Canllaw Ymddygiad Barnwrol** a'r **Datganiad o Ymddygiad Disgwyliedig**.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus ddyletswydd o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 i gymryd y camau y mae'n eu hystyried yn briodol i annog amrywiaeth farnwrol. Mae Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol Cyngor y Barnwyr yn ei chefnogi i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Farnwriaeth.

Lansiwyd yr ail **strategaeth bum mlynedd** ym mis Ionawr 2026, gan nodi ymrwymiadau hyd at 2030, ynghyd â gwerthusiad o strategaeth 2020–25. Mae'r strategaeth newydd yn adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd gan ei rhagflaenydd.

Mae blaenoriaethau cychwynnol y strategaeth yn cynnwys gwella cynrychiolaeth barnwyr Du, cryfhau cynhwysiant pobl anabl, a chynyddu amrywiaeth ymhlith y gronfa o ymgeiswyr ar gyfer yr Uchel Lys ac uwchlaw.

Canolbwyntiodd llawer o weithgarwch allgymorth y farnwriaeth ar annog mwy o gyfreithwyr Du i ystyried gyrfaoedd barnwrol.

Er mwyn cefnogi cynhwysiant pobl anabl, mae'r gwaith wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o addasiadau yn y gweithle ymhlith arweinwyr barnwrol. Mae gweithgor, a gadeirir gan Feistr Mainc y Brenin, yn goruchwylio'r gwaith hwn a'r cydgysylltu angenrheidiol â GLITEF i gefnogi'r gwaith o ddarparu addasiadau priodol.

Ehangodd y farnwriaeth y data amrywiaeth a gyhoeddwyd yn **ystadegau amrywiaeth y farnwriaeth 2026**. Am y tro cyntaf, cafodd gwybodaeth am yr ysgol a fynychwyd ei chynnwys fel dangosydd o gefndir economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â chyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred, gan fod y trothwy datgan o 60% wedi'i gyrraedd. Bydd y tryloywder cynyddol hwn yn helpu i lywio blaenoriaethau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae data ar amrywiaeth ynadon a chyfraddau penodi wedi'u cyhoeddi.

Mae gweithgareddau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:

- Ail-lansio'r cynllun mentora barnwrol ym mis Rhagfyr 2025, sydd wedi cefnogi mwy na 70 o weithwyr cyfreithiol proffesiynol o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dechreuodd carfan arall ym mis Ebrill 2026, gyda mwy na 60 o gyfranogwyr yn cael sesiynau mentora a chymorth, ac roedd 44% ohonynt yn Ddu.
- Parhau i gynnig cyfleoedd drwy'r Cynllun Cysgodi Gwaith Barnwrol, gyda 307 o gyfranogwyr ers mis Awst 2025. Mi'r oedd 83% ohonynt yn gyfreithwyr a 27% yn Ddu, yn Asiaidd neu o gefndir leiafrif ethnig (gyda 6% yn nodi eu bod yn Ddu, o'i gymharu â 3–4% ymhlith y gronfa o gyfreithwyr cymwys).
- Cynnal seminarau cyn ymgeisio a fynychwyd gan 5,785 o ddarpar ymgeiswyr barnwrol rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026. Yn ogystal, cyrhaeddodd saith seminar wedi'u targedu 985 o gyfreithwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farnwriaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys drwy ymgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron, Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol a Rhwydwaith y Cyfreithwyr Du. Nododd 20% o'r rhai a fynychodd eu bod yn Ddu.
- Cefnogi 13 o ddarpar fargyfreithwyr o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy interniaeth wythnos o hyd yn yr Uchel Lys a'r Llys Apêl, a ddarparwyd ar y cyd â'r elusen Bridging the Bar ym mis Tachwedd 2025. Hon oedd pedwaredd flwyddyn y rhaglen.
- Cynnal diwrnod agored i 20 o fyfyrwyr y gyfraith o Brifysgol Gorllewin Llundain o gefndiroedd amrywiol ym mis Mawrth 2026. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn sesiwn holi ac ateb gyda barnwyr yr Uchel Lys a barnwyr tribiwnlysoedd, arsylwyd ar achosion llys ganddynt, a chlywsant gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n cefnogi mynediad at yrfaoedd barnwrol.

Cefnogir y gweithgareddau hyn gan farnwyr sy'n gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd. Mae mwy na 140 o farnwyr yn gweithredu fel tywyswyr ar Raglen Allgymorth wedi'i Dargedu y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae barnwyr hefyd yn cyfrannu at Raglen Addysg Farnwrol Cyn Ymgeisio y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ymunodd deuddeg o hwyluswyr barnwrol newydd yn 2026, gan ddod â chyfanswm nifer yr hwyluswyr i 40.



Myfyrwyr y gyfraith o Brifysgol Gorllewin Llundain yn ymweld â'r Llysoedd Barn Brenhinol

Yn ogystal â'u dyletswyddau barnwrol, mae tua 150 o farnwyr a 60 o ynadon yn gwirfoddoli fel Barnwyr ac Ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol, gan ymgymryd â gwaith allgymorth gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol. Mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni un o amcanion craidd Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant (A&C) y Farnwriaeth 2026–2030, sef hyrwyddo mwy o amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n ymgeisio am swyddi barnwrol, gan gynnwys drwy ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn ystod y flwyddyn adrodd rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, cynhaliodd Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol fwy na 660 o weithgareddau ymgysylltu, tra cwblhaodd Ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol 135.

Mae'r Cynllun Mentora Gwrthdro Barnwrol yn parhau i roi mewnwelediad i farnwyr i'r profiadau a'r rhwystrau a wynebir gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd cynllun 2026 yn cynnwys cynllun peilot bach o fentoriaid barnwrol mewnol i rannu eu safbwyntiau fel aelodau o'r farnwriaeth o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; cofrestrodd 35 o farnwyr naill ai fel mentoreion neu fentoriaid.

Lansiwyd y Bwrdd Amrywiaeth Barnwrol a Chyfreithiol ym mis Mai 2026. Dan gyd-gadeiryddiaeth yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor, mae'n dod â sefydliadau o bob rhan o'r sector cyfreithiol ynghyd, gan gynnwys y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyfreithiol



Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr a Meistr y Rholiau yn cynnal sesiwn fforwm agored i farnwyr

Proffesiynol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, y Swyddfa Farnwrol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Bwrdd yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i gynyddu amrywiaeth ar draws y farnwriaeth a'r proffesiynau cyfreithiol drwy gydweithio'n agosach.

Cyfathrebiadau Barnwrol Mewnol

Mae'r uwch farnwriaeth yn parhau i ymgysylltu â deiliaid swyddi barnwrol drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Y nod yw sicrhau bod deiliaid swyddi barnwrol yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu bod yn cael gwybodaeth, a'u bod yn falch o fod yn aelodau o'r farnwriaeth.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn cynnal sesiynau fforwm agored ar-lein bob mis, gan roi cyfle i bob deiliad swydd farnwrol ddysgu mwy am waith yr uwch farnwriaeth a gofyn cwestiynau. Eleni, mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi gwahodd gwesteion o'r tu allan i'r uwch farnwriaeth, sydd wedi bod yn llwyddiant, er enghraifft yr Ynad Arweiniol Cenedlaethol, Cadeirydd Cyngor y Bar, a Llywydd Cymdeithas y Gyfraith.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn parhau i gefnogi'r gwaith o gadw ynadon drwy nodi digwyddiadau megis Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr ac Wythnos Gwirfoddolwyr ar sianeli cyfathrebu mewnol.

Mae diogelwch barnwrol wedi bod yn ffocws allweddol o fewn cyfathrebiadau mewnol eleni. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus ac aelodau eraill o'r uwch farnwriaeth wedi cyhoeddi nifer o negeseuon a diweddariadau i ddeiliaid swyddi barnwrol. Nod y negeseuon fu tawelu meddyliau deiliaid swyddi barnwrol, eu hatgoffa o'r cymorth sydd ar gael, a darparu cyngor ymarferol ar aros yn ddiogel yn y llys a thu allan i'r llys. Mae'r Tîm Cyfathrebiadau Barnwrol wedi datblygu Canllaw Diogelwch Barnwrol, sy'n dwyn cyngor a gwybodaeth ynghyd mewn un lle ac mae ar gael i'r farnwriaeth ers mis Medi 2026.

Arweinyddiaeth

Mae'r farnwriaeth yn dibynnu ar farnwyr sy'n ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau arweinyddol ochr yn ochr â'u dyletswyddau barnwrol, gan ddarparu cymorth, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth i'w cyd-farnwyr. Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn hanfodol i weinyddu cyfiawnder. Mae'r gweithgarwch datblygu arweinyddiaeth a gynhaliwyd eleni wedi parhau i gefnogi undod barnwrol, cryfhau cydweithio a sicrhau bod deiliaid swyddi barnwrol yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i arwain yn effeithiol.

Gan adeiladu ar y **Fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol** a lansiwyd yn 2025, cyflwynwyd Datganiad Arweinyddiaeth a Fframwaith Gweithgareddau Arweinyddiaeth (a gyhoeddwyd yn fewnol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol). Mae'r Datganiad Arweinyddiaeth yn nodi'n

glir yr ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth farnwrol, gan amlinellu'r dull cydweithredol, cynhwysol a chefnogol a ddisgwylir gan arweinwyr barnwrol yn eu rolau o ddydd i ddydd. I ategu hyn, mae'r Fframwaith Gweithgareddau Arweinyddiaeth yn darparu trosolwg ymarferol o'r gweithgareddau arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â rolau arweinyddiaeth farnwrol ar bob lefel. Mae'n tynnu sylw at ehangder y cyfraniad arweinyddol ar draws y farnwriaeth ac yn darparu pwynt cyfeirio cyffredin ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a chefnogi arweinwyr barnwrol. Gyda'i gilydd, maent yn darparu sylfaen gyffredin ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar draws y farnwriaeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth gyffredin o arweinyddiaeth farnwrol effeithiol.

Am y tro cyntaf, mae pob Dirprwy Farnwr Rhanbarth a Chofiadur wedi'i gysylltu â barnwr arweiniol. Mae hyn yn gam pwysig tuag at gryfhau cysylltiadau arweinyddiaeth ar draws y farnwriaeth ehangach, gan helpu barnwyr sy'n derbyn ffi i deimlo eu bod yn rhan o'r teulu barnwrol a chefnogi datblygiad gyrfa ac arweinyddiaeth yn y dyfodol. Mae'r fenter hefyd yn atgyfnerthu ymrwymiad y farnwriaeth i gynnal diwylliant cynhwysol a chefnogol lle gall pob barnwr gael cyngor ac anogaeth gan gydweithwyr profiadol.

Mae datblygu barnwyr arweiniol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Parhaodd trefniadau sefydlu strwythuredig, mentora ac adborth 360 gradd drwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi arweinwyr barnwrol newydd a phrofiadol i ddatblygu eu harferion arweinyddiaeth ymhellach. Mae pwyslais parhaus wedi bod ar gefnogi llesiant barnwrol, meithrin arweinyddiaeth gydnerth a chynaliadwy, a helpu barnwyr i arwain yn effeithiol drwy gyfnod o newid a heriau parhaus i'r system gyfiawnder. Enghraifft o hyn yw 'Partneriaeth Arweinyddiaeth', a gafodd ei hehangu, gan adeiladu ar ei chyflwyniad llwyddiannus i Farnwyr Llywyddol y llynedd, i gefnogi Barnwyr Preswyl, Barnwyr Teulu Dynodedig a Barnwyr Sifil Dynodedig sydd newydd eu penodi. Mae'r fenter yn paru barnwyr arweiniol newydd â chydweithwyr profiadol, gan ddarparu cymorth anffurfiol a chyfrinachol wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau newydd a'u helpu i feithrin hyder yn eu rolau. Mae barnwyr arweiniol hefyd wedi mynychu sesiynau byr ar ôl eistedd yn y llys yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu eu gwybodaeth mewn meysydd perthnasol.

Recriwtio a Phenodiadau

Rhwng mis Awst 2025 a mis Medi 2026, penodwyd 937 o farnwyr llysoedd a thribiwnlysoedd ac aelodau anghyfreithiol.

Eleni, penodwyd Syr Stephen Cobb yn Llywydd yr Adran Deulu. Penodwyd Syr Colin Birss, Canghellor yr Uchel Lys, yn Feistr y Rholiau, a phenodwyd yr Arglwydd Ustus Warby yn Llywydd nesaf Adran Mainc y Brenin. Cyhoeddwyd saith penodiad newydd i'r Llys Apêl: Mr Ustus Butcher, Mr Ustus Chamberlain, Mr Ustus Fancourt, Mrs Ustus Farbey, Mrs Ustus Lieven, Mr Ustus Meade a Mr Ustus Saini.

Yn dilyn ymarfer recriwtio llwyddiannus arall, mae gan yr Uchel Lys ei nifer llawn o farnwyr o hyd. Mae'r gwaith o gynllunio'r ymarfer nesaf ar y gweill.

Lansiwyd ymarfer recriwtio Barnwyr Cylchdaith ym mis Ionawr 2026, a gofynnwyd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) argymell 64 o ymgeiswyr i'w penodi. Disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad ym mis Chwefror 2027. Mae'r ymarfer recriwtio Barnwyr Rhanbarth, sy'n ceisio llenwi 70 o swyddi gwag ar draws pob cylchdaith ac eithrio Cymru, yn mynd rhagddo a disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad ym mis Ebrill 2027.

Arweiniodd yr ymarfer recriwtio Dirprwy Farnwyr Rhanbarth diwethaf at 124 o benodiadau, a nododd y JAC 30 o ymgeiswyr ychwanegol a gafodd eu hychwanegu at restr wrth gefn. Bydd y rhestr wrth gefn yn cael ei defnyddio cyn lansio'r ymarfer nesaf yn hydref 2026.

Oherwydd newidiadau i bolisïau'r llywodraeth sy'n cynyddu'r galw yn y tribiwnlysoedd, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth a chyflwyno Deddf Hawliau Rhentwyr 2026, mae angen parhaus i recriwtio barnwyr ychwanegol i'r Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf. Mae ymarferion recriwtio yn mynd rhagddynt fel rhan o raglen recriwtio annibynnol y JAC ar gyfer 2025–2026, ac mae gwaith recriwtio pellach yn cael ei gynllunio fel rhan o raglen 2026–27. Er enghraifft, llwyddodd y JAC i recriwtio 40 o aelodau lleyg i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, 16 o Aelodau Prisio a Chadeiryddion sy'n derbyn ffi, ac wyth o farnwyr cyflogedig, a neilltuwyd pob un ohonynt i'r Siambr Eiddo. Mae ymarferion pellach i nodi barnwyr cyflogedig a barnwyr sy'n derbyn ffi ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Eiddo) hefyd yn mynd rhagddynt.

Mae gwaith yn parhau i annog ceisiadau am swyddi barnwrol cyflogedig, gydag ymgysylltiad cryf gan y farnwriaeth, y proffesiynau cyfreithiol a'r JAC.

Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Farnwrol

Mae gan farnwyr fynediad at ystod gynhwysfawr a diguro o adnoddau cyfreithiol ar-lein drwy eLIS, sef y llyfrgell gyfreithiol ar-lein ar gyfer barnwyr. Mae'r defnydd o gronfeydd data ar-lein yn parhau i gynyddu, a bydd rhaglen hyfforddi newydd wedi'i thargedu ar ddefnyddio adnoddau ar-lein yn cael ei chyflwyno ym mis Hydref 2026, gan ei bod yn hanfodol bod gan farnwyr y sgiliau i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Ar gyfartaledd, mae cyfanswm y defnyddwyr misol ar draws yr holl gronfeydd data yn fwy na 3,900 o farnwyr a chynghorwyr cyfreithiol; mae'r nifer hwnnw'n parhau i gynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyfforddiant wedi cynyddu yn unol â hynny; cafodd bron i 1,200 o farnwyr hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rhwng mis Awst 2025 a mis Medi 2026, darparodd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Farnwrol (jLIS) dros 27,000 o gyhoeddiadau print i farnwyr yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Mae'r jLIS wedi parhau i gefnogi'r elusen International Law Book Facility, sy'n anfon llyfrau cyfreithiol nad oes eu hangen mwyach at sefydliadau dielw ledled y byd. Anfonwyd dros 20 o focsys i Zambia, ac anfonwyd 20 arall i'w dosbarthu i lysoedd yn y Caribî. Ar 14 Hydref 2025, croesawodd Llyfrgell y Llysoedd Barn Brenhinol ddirprwyaeth o farnwyr a swyddogion llyfrgell o Sierra Leone a Nigeria, fel rhan o ymweliad a drefnwyd gan yr International Law Book Facility.



Llyfrgell y Llysoedd Barn Brenhinol

Ychwanegwyd bron i 7,000 o ddyfarniadau newydd at y gwasanaeth Dod o Hyd i Gyfraith Achosion a gynhelir gan Yr Archifau Gwladol; cyhoeddir 90% o ddyfarniadau ar y diwrnod y cânt eu traddodi. Fel rhan o'r gwaith ehangach ar gyfiawnder agored, mae jLIS wedi dechrau'r broses o drosglwyddo 2,000 o drawsgrifiadau papur o'r Llys Apêl (Adran Sifil) (1992–2001) i Archifau Gwladol, lle byddant ar gael i'r cyhoedd.

Hyfforddiant

Mae'r Coleg Barnwrol yn darparu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ac adnoddau ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus i gefnogi pob barnwr ac ynad o adeg eu penodiad a thrwy gydol eu gyrfaoedd barnwrol.

Ym mis Ionawr, lansiodd y Coleg Barnwrol ei strategaeth ar gyfer 2026–2030, gan bennu cyfeiriad hyfforddiant barnwrol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n cynnwys ymrwymiad o'r newydd i ymgysylltu'n allanol a meithrin perthnasoedd, gan gydnabod bod hyder y cyhoedd mewn hyfforddiant barnwrol yn hanfodol a bod mwy o dryloywder yn gam pwysig tuag at gyflawni hynny. I gefnogi'r nod hwn, mi wnaeth y Coleg wahodd y Gweinidog Sarah Sackman CB AS ac uwch-randdeiliaid eraill i arsylwi hyfforddiant, ymgysylltodd â fforymau rhanddeiliaid, a chyhoeddodd grynodeb o'r addysg farnwrol ar gam-drin domestig. Ym mis Gorffennaf 2026, cynhaliodd yr Arglwyddes Brif Ustus ddigwyddiad yn y Llysoedd Barn Brenhinol i arddangos gwaith y Coleg, a fynychwyd gan grŵp amrywiol o bartneriaid ac asiantaethau.

Yn ogystal â darparu rhaglen graidd o hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus i ddeiliaid swyddi barnwrol newydd a phresennol, mae'r Coleg wedi:

- Cynhyrchu hyfforddiant e-ddysgu newydd i ynadon a chynghorwyr cyfreithiol ar y newidiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf Dedfrydu 2026
- Cyhoeddi argraffiad newydd o Grynodeb Llys y Goron ym mis Hydref 2025 (a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2026)
- Diwygio hyfforddiant teulu i adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn newydd
- Creu hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o weithredu diwygiadau rhentu
- Lansio modiwl sylfaen ar-lein ar gyfer Dirprwy Farnwyr Rhanbarth sydd newydd eu penodi
- Creu adnoddau i gefnogi'r defnydd o DA gan y farnwriaeth, gan gynnwys e-ddysgu, gweminarau a llyfrgell o anogwyr.

Adolygodd y Coleg ei fodel hyfforddi hefyd i gefnogi'r cynnydd yn nifer yr ynadon sy'n cael eu recriwtio, er mwyn ymateb i uchelgeisiau'r Rhaglen Cynyddu Nifer yr Ynadon y cyfeiriwyd ati yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac i barhau i sicrhau bod pob ynad yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i eistedd yn hyderus ac yn gymwys.

Ym mis Ebrill, cyflwynodd y Coleg Raglen Uwch Arweinyddiaeth Farnwrol newydd a gynlluniwyd ar gyfer uwch-farnwyr sydd â chyfrifoldebau bugeiliol, strategol neu draws-awdurdodaethol sylweddol. Mae'r ffocws ar gyfathrebu effeithiol a dylanwadol, cynnal morâl a llesiant, grymuso eraill, ac arwain drwy newid.

Parhaodd cefnogi cynhwysiant yn faes ffocws. Datblygodd y Coleg ffilmiau hyfforddi newydd i ymgorffori'r Datganiad o Ymddygiad Disgwyliedig. Cyhoeddwyd diweddariad interim i'r Llyfr Mainc Triniaeth Gyfartal ym mis Chwefror 2026.

Ym mis Gorffennaf, lansiodd y Coleg Seminar newydd ar Sgiliau Barnwrol Ymarferol ar gyfer barnwyr yn ystod eu blwyddyn gyntaf o eistedd. Mae'r

seminar traws-awdurdodaethol hwn yn rhoi'r sgiliau i ddeiliaid swyddi barnwrol greu amgylchedd i gynnal gwrandawiadau teg a chynhwysol, ymgymryd â chanfod ffeithiau a gwneud penderfyniadau yn effeithiol, ac adnabod effeithiau trawma ar gyfathrebu a chyfranogiad ac ymateb iddynt.

Mae'r Coleg yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y system gyfiawnder. Eleni, darparodd seminar Gymraeg draws-awdurdodaethol, creodd gyfres o bodlediadau i gefnogi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd, a dechreuodd ddatblygu hyfforddiant e-ddysgu newydd i gefnogi presenoldeb dwyieithog ar fainc yr ynadon.

Fel rhan o'i ymrwymiad i gryfhau rheolaeth y gyfraith yn rhyngwladol, darparodd y Coleg hyfforddiant i wledydd gan gynnwys Wcráin, Malaysia ac Armenia ar bynciau megis gwrth-lygredd, rheoli achosion ac ysgrifennu dyfarniadau. Darparodd y Coleg seminarau ar bynciau amrywiol ar gyfer Rhwydwaith Hyfforddiant Barnwrol Ewrop, a pharhaodd i gydweithio â Chyngor Astudiaethau Barnwrol y DU ac Iwerddon a'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Hyfforddiant Barnwrol.

Rhwng mis Hydref 2025 a mis Medi 2026, cyflwynodd y Coleg Barnwrol 2,073 o gyrsiau hyfforddi byw, gyda chyfanswm o 34,325 o leoedd i gyfranogwyr, gan gynnwys 18,773 o leoedd i ynadon (55% o'r cyfanswm). Mae'r canlyniadau gwerthuso sydd ar gael yn dangos bod 93% o'r cyfranogwyr a roddodd adborth yn cytuno bod eu hyfforddiant wedi cyflawni'r nodau a'r deilliannau dysgu yn llawn neu i raddau helaeth, a bod yr un ganran yn cytuno bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol i raddau helaeth ar gyfer y rôl farnwrol, o gymharu â meincnodau o 90%.

Mae'r ffigurau ar gyfer gweithgareddau hyfforddi yn seiliedig ar ddata o blatfform Dysgu'r Coleg Barnwrol (JCL), sy'n cynnwys gweithgareddau megis ymweliadau a gynhelir fel rhan o raglenni sefydlu. Gall ffigurau gweithgareddau JCL gyfrif modiwlau o fewn yr un cwrs ar wahân, a gall nifer y lleoedd i gyfranogwyr gynnwys yr un unigolyn yn mynychu mwy nag un cwrs yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffigurau gwerthuso yn ymwneud â hyfforddiant a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd gan y Coleg, gyda chyrsiau sy'n cynnwys sawl modiwl yn cael eu cyfrif unwaith yn unig, ac felly nid oes modd cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol.

Llesiant Barnwrol

Mae cyfrifoldebau statudol yr Arglwyddes Brif Ustus yn cynnwys sicrhau trefniadau priodol ar gyfer lles barnwriaeth Cymru a Lloegr o fewn yr adnoddau a ddarperir gan yr Arglwydd Ganghellor. Yr Arglwyddes Ustus Whipple yw'r Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Llesiant, ac mae dau farnwr arall sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros bortffolio lles barnwriaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Penodir barnwyr lles lleol hefyd mewn rhai awdurdodaethau a siambrau i gefnogi eu cydweithwyr.

Lansiwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant Barnwrol 2026–2030 ym mis Ionawr 2026, a'i chyhoeddi'n fewnol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol. Mae'n ailddatgan ymrwymiad yr Arglwyddes Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i feithrin amgylchedd barnwrol lle mae pob deiliad swydd farnwrol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, a'u bod yn gallu ffynnu. Gan adeiladu ar sylfeini'r Strategaeth Iechyd a Llesiant wreiddiol (2021–2025), mae'r fframwaith newydd yn defnyddio tystiolaeth o Arolwg Agweddau Barnwrol 2024, tueddiadau mewn data mewnol a mewnwelediadau gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd a lles i gryfhau a gwella'r cymorth sydd ar gael i'r farnwriaeth. Mae'r strategaeth yn cyflwyno ffocws o'r newydd ar feysydd allweddol, gan gynnwys straen barnwrol, ac yn nodi amcanion clir i gefnogi barnwyr arweiniol a chadeiryddion meinciau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau bugeiliol. Mae hefyd yn sicrhau bod gan ddeiliaid swyddi barnwrol fynediad at ganllawiau, adnoddau a gwasanaethau effeithiol i'w helpu i gynnal eu llesiant.

Cefnogir y gwaith o gyflawni'r amcanion iechyd a llesiant gan gynlluniau gweithredu llesiant a adolygir yn flynyddol gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol Barnwrol. Bydd canfyddiadau Arolwg Agweddau Barnwrol 2026 yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu llesiant barnwrol yn y dyfodol.

Ar 30 Mehefin 2026, nododd y farnwriaeth Ddiwrnod Llesiant Barnwrol, sef menter flynyddol a gyflwynwyd yn 2025, sy'n rhoi cyfle i ddeiliaid swyddi barnwrol ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant. Roedd thema 2026, Meithrin Cydnerthedd, yn cydnabod nad oedd cydnerthedd yn golygu gwneud mwy nac ymdopi ar eich pen eich hun, ond yn hytrach cynnal llesiant, persbectif ac effeithiolrwydd dros amser.

Rhoddwyd cyfle i ddeiliaid swyddi barnwrol gymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithdai a gweminarau. Cynhaliodd yr Arglwyddes Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd drafodaeth banel gyda'r ddau farnwr sydd â chyfrifoldeb portffolio dros les. Roedd digwyddiadau lleol ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn annog ymarfer corff, cysylltiadau cymdeithasol a thrafodaethau ymhlith cydweithwyr.

Roedd y gweithdai rhithwir a oedd ar gael i bob deiliad swydd farnwrol ar Ddiwrnod Llesiant Barnwrol yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

- Meithrin cydnerthedd
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Cymorth treialon – tynnu sylw at y Gwasanaeth Cymorth Treialon a'r cymorth seicolegol sydd ar gael i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n ymdrin ag achosion cymhleth.
- Yr adnodd cymorth straen – egluro diben yr adnodd cymorth straen a manteision ei ddefnyddio.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cyfres o sesiynau dysgu byr, cyfunol ar bynciau allweddol, a fydd ar gael i'r farnwriaeth yn ôl y galw.

Ymddygiad a Disgyblaeth

Parhaodd hyrwyddo safonau ymddygiad uchel a meithrin diwylliant gwaith parchus a chynhwysol yn flaenoriaeth bwysig i'r farnwriaeth yn ystod y flwyddyn. Parhaodd y gwaith i gryfhau hyder pobl i godi pryderon, gwella dealltwriaeth o'r safonau ymddygiad disgwyliedig, a chefnogi diwylliant lle mae deiliaid swyddi barnwrol yn teimlo eu bod yn gallu lleisio eu pryderon a dysgu o adborth.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y farnwriaeth i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y **Datganiad o Ymddygiad Disgwyliedig**, drwy hyfforddiant cynhwysiant, gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, ac annog datrys pryderon yn gynnar.

Parhaodd annog datrys pryderon yn gynnar, lle bo'n briodol, a sicrhau y gellir codi pryderon yn ddiogel ac yn briodol yn faes ffocws sylweddol. Lansiwyd ffynhonnell ganolog o ganllawiau ar yr holl adnoddau, gan gynnwys y llwybrau ar gyfer codi pryderon, ym mis Chwefror 2026.

Parhaodd y farnwriaeth i bwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth wrth lunio diwylliant. Mae barnwyr arweiniol yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo ymddygiad parchus, annog trafodaeth agored a chefnogi cydweithwyr i fynd i'r afael â phryderon yn gynnar lle bo modd. Maent wedi cael eu cefnogi yn y rôl hon drwy ddatblygu deunyddiau, canllawiau a chyfleoedd dysgu sydd wedi'u cynllunio i helpu arweinwyr i ddangos esiampl o'r safonau a ddisgwylir ar draws y farnwriaeth.

Cyhoeddwyd protocol ym mis Gorffennaf 2026 yn nodi ac yn ffurfioli'r prosesau presennol sydd ar gael i weithwyr cyfreithiol proffesiynol godi pryderon anffurfiol ynghylch ymddygiad barnwrol. Yn ystod yr un mis, cyhoeddodd yr Arglwyddes Brif Ustus, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd a Chomisiynydd Ymddygiad Cyngor y Bar **ddatganiad ar y cyd** a oedd yn nodi ymrwymiad cyffredin i greu a chynnal amgylchedd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd lle mae deiliaid swyddi barnwrol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, staff y llysoedd a phob defnyddiwr llys arall yn cael eu trin â chwrteisi a pharch.

Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o ymrwymiad tymor hwy i gryfhau hyder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd ar draws y farnwriaeth. Er bod newid diwylliant yn cymryd amser, gwelwyd cynnydd parhaus eleni o ran ymgorffori egwyddorion parch, cynhwysiant a

herio adeiladol, gan greu amgylchedd lle gall pob deiliad swydd farnwrol gyfrannu a chyflawni ei waith hyd eithaf ei allu.

Deallusrwydd Artiffisial (DA)

Fel y barnwr arweiniol ar DA, mae Canghellor yr Uchel Lys wedi goruchwylio'r broses o symud o ddatblygu canllawiau barnwrol ar DA a chynnal profion ar raddfa fach, i gyfnod mwy gweithredol o fabwysiadu'r dechnoleg mewn modd rheoledig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod y canllawiau ar DA ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol yn cadw i fyny â'r dechnoleg drwy eu diweddaru ymhellach ym mis Hydref 2025
- Sefydlu trefniadau llywodraethu i ddarparu arbenigedd a goruchwyliaeth wrth dreialu adnoddau DA
- Cyflwyno adnoddau diogel yn ychwanegol at Microsoft Copilot, lle bo'n briodol
- Darparu hyfforddiant a chymorth cyfathrebu i alluogi deiliaid swyddi barnwrol i ddefnyddio DA yn hyderus, yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Mae prosiectau peilot wedi galluogi profi swyddogaethau'n ddiogel, gan gynnwys trawsgrifio lleferydd, crynhoi a defnyddio iaith sy'n briodol i oedran. Bydd y gwaith o brofi adnoddau DA cynorthwyol yn parhau, a dim ond pan fydd tystiolaeth glir o'u manteision, ynghyd â mesurau diogelu priodol, y caiff adnoddau eu mabwysiadu. Mae'r farnwriaeth yn ofalus optimistaidd ynghylch yr effaith y gall DA ei chael ar ei gwaith, gan ei gwneud yn glir ar yr un pryd y bydd barnwyr bob amser yn cadw cyfrifoldeb llawn am y penderfyniadau, y rhesymu a'r allbynnau terfynol sy'n dwyn eu henwau.

Diogelwch

Mae diogelwch barnwrol wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r uwch farnwriaeth, gan fod barnwyr wedi gorfod gweithio mewn amgylchedd heriol. Mae lefel uchel o fygythiadau ac aflonyddu yn erbyn barnwyr, ac mae'r rhain yn dod yn fwyfwy cymhleth, yn enwedig ar-lein.

Y llynedd, sefydlodd yr Arglwyddes Brif Ustus y Tasglu Diogelwch, a gadeirir gan y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol, yr Arglwyddes Ustus Yip. Ei nod oedd cydweithio ag arbenigwyr o'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i nodi pa welliannau y gellid eu gwneud i'r trefniadau presennol, ac yna goruchwylio'r gwaith o'u rhoi ar waith. Mae'r Tasglu wedi llwyddo i gryfhau gweithdrefnau a systemau, ac mae ymwybyddiaeth gynyddol bellach o bwysigrwydd diogelwch barnwrol ar draws asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Bydd grŵp goruchwylio gweithredol newydd yn cael ei sefydlu i adeiladu ar waith y Tasglu.

Ym mis Mawrth 2026, ymwelodd yr Arglwyddes Ustus Yip ag Ontario, Canada, i ddysgu am y trefniadau sydd

ar waith yno i ddiogelu eu barnwriaeth. Dywedodd yr Arglwyddes Ustus Yip: “Mae llawer o debygrwydd rhwng ein systemau barnwrol, ac rydym yn wynebu llawer o’r un problemau a heriau. Roedd yn ddefnyddiol iawn trafod y byd sy’n newid yn barhaus yr ydym yn byw ynddo, gan gynnwys yr heriau sy’n deillio o’r cyfryngau cymdeithasol a deallusrwydd artiffisial.”

Llysoedd Barn Dinas Llundain

Mae’r gwaith ar Lysoedd Barn newydd Dinas Llundain yn Sgwâr Salisbury wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol, yr Arglwyddes Ustus Yip, yw’r arweinydd barnwrol ar gyfer y prosiect, gyda chefnogaeth Mr Ustus John Cavanagh. Mae’r Arglwyddes Brif Ustus a Llywydd Adran Mainc y Brenin yn parhau i gefnogi datblygiadau’r prosiect cyffrous hwn, a fydd yn darparu canolfan aml-awdurdodaethol yng nghanol y ddinas.

Mae’r farnwriaeth yn parhau i weithio’n agos gyda Chorfforaeth Dinas Llundain a GLlTEF i baratoi ar gyfer agor y llys newydd a dechrau ei weithredu yng ngwanwyn 2027. Mae’r cynlluniau ar gyfer dyrannu gwaith i’r llys newydd ac ar gyfer lleoli barnwyr i eistedd yn y llys yn cael eu cwblhau. Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddwyd y bydd Ei Anrhydedd y Barnwr Tony Baumgartner yn ymgymryd â swydd Barnwr Preswyl Llysoedd Barn Dinas Llundain o fis Ionawr 2027 ymlaen..



Yr Arglwyddes Brif Ustus yn siarad yng nghynhadledd gyntaf Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol



Ymgysylltiadau Allanol a Rhyngwladol



Un o agweddau allweddol cyfrifoldebau'r Arglwyddes Brif Ustus yw hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o rôl y farnwriaeth, gweinyddu cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith.

Cefnogir yr amcanion hyn gan bwyllgorau perthnasol Cyngor y Barnwyr, yn ogystal â mentrau eraill, megis y Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored a gwaith Barnwyr Cyswllt Seneddol. Mae llawer o farnwyr yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol, a all gynnwys ymgysylltu diplomyddol, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant. Mae deiliaid swyddi barnwrol eraill yn gwirfoddoli fel Barnwyr ac Ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol, gyda'r nod o ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r llwybr recriwtio ar gyfer barnwyr ac ynadon y dyfodol.

Cyfathrebiadau Allanol

Cynhelir ystod o weithgareddau cyfathrebu i helpu'r cyhoedd i ddeall y farnwriaeth a gwaith y llysoedd. Mae hyn yn cynnwys yr Arglwyddes Brif Ustus yn rhoi cyfweliadau i ddisgrifio ei rôl, cyfathrebu newidiadau a datblygiadau a arweinir gan y farnwriaeth, megis dulliau cenedlaethol newydd o restru achosion a chynyddu nifer y gwrandawiadau o bell yn y llysoedd troseddol, ac ymateb i gyfartaledd o 300 o ymholiadau gan y cyfryngau bob mis.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i chwarae rhan werthfawr, gyda 140,000 o ddilynwyr ar gyfrifon y

Swyddfa Farnwrol ar draws Instagram, LinkedIn, X a Facebook. Mae hyn yn gynnydd o 20,000 o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol ar gyfer y sianeli hynny, ac mae lefelau ymgysylltu â negeseuon unigol hefyd wedi cynyddu. Cefnogwyd y twf hwn drwy roi mwy o bwyslais ar gynnwys fideo a gynhyrchwyd yn fewnol, yn enwedig fideos sy'n cynnwys yr Arglwyddes Brif Ustus.

Daeth cyfres fideo o'r enw 'Pwy Ydw i i Farnu?' (Who Am I to Judge?), a oedd yn cynnwys sgyrsiau agored rhwng deiliaid swyddi barnwrol, i ben eleni. Cafodd y fideos eu cyhoeddi ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac roeddent yn arddangos amrywiaeth o rolau a chefndiroedd, gan roi gwell dealltwriaeth i gynulleidfaoedd o'r bobl sy'n dal swyddi barnwrol.

Mae dyfarniadau a sylwadau dedfrydu ar gael i'r cyhoedd a'r cyfryngau yn brydlon, er mwyn sicrhau bod gwaith y farnwriaeth yn cael sylw cynhwysfawr a chywir. Eleni, cyhoeddwyd 487 o ddyfarniadau a sylwadau dedfrydu proffil uchel ar judiciary.uk. Gellir dosbarthu a chyhoeddi crynodebau i'r wasg ochr yn ochr â'r dyfarniad mewn achosion cymhleth neu achosion sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd o benderfyniad y llys. Mae gwaith yn parhau i gynyddu nifer y crynodebau i'r wasg a gyhoeddir ar draws pob maes o'r farnwriaeth.

Darlledwyd 58 o sylwadau dedfrydu eleni, o'i gymharu â 45 yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Mae hyn yn galluogi'r cyhoedd i weld a chlywed barnwyr yn Llys y Goron yn egluro'r rhesymau dros eu dedfrydau, gan helpu'r cyhoedd i ddeall sut y gwneir penderfyniadau.

Cynhaliodd yr Arglwyddes Brif Ustus ei chynhadledd flynyddol i'r wasg ym mis Mawrth 2026 yn llyfrgell hanesyddol y Llysoedd Barn Brenhinol. Cafodd cynrychiolwyr y cyfryngau cenedlaethol ac arbenigol gyfle i ofyn cwestiynau ar amrywiaeth o bynciau, megis tryloywder, rhestru achosion llys ac ymgysylltu rhyngwladol.

Mae areithiau yn agwedd bwysig arall ar waith ymgysylltu allanol. Eleni, mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys: araith yr Arglwyddes Brif Ustus i Goleg y Frenhines (Cyfoethogi Anghyfiawn: A Oes Damcaniaeth Gyffredinol Sylfaenol?); araith Meistr y Rholiau i gynhadledd Legal Geek (Am wahaniaeth y gall blwyddyn ei wneud); araith Llywydd Adran Mainc y Brenin i'r Inner Temple (Heb Ofn na Ffafr: Annibyniaeth Farnwrol, y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol); ac araith Canghellor yr Uchel Lys i Gymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain (Braint Gyfreithiol Broffesiynol yn Oes Deallusrwydd Artiffisial).



Yr Arglwyddes Brif Ustus yn cynnal ei chynhadledd i'r wasg flynyddol yn llyfrgell y Llysoedd Barn Brenhinol

Ymgysylltu ag Ysgolion

Ymwelodd Barnwyr ac Ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol â dros 400 o ysgolion cynradd ac uwchradd, a dros 15 o sefydliadau addysgol fel rhan o Raglen Allgymorth Ysgolion a Phrifysgolion dros gyfnod o 12 mis yn 2025–26. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion a llysoedd, ffug dreialon, a mentrau addysgol a ddarparwyd mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Gyfiawnder Genedlaethol. Mae'r Amgueddfa Gyfiawnder Genedlaethol yn cefnogi gweithgareddau allgymorth wedi'u targedu yn unol ag amcanion y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy ganolbwyntio ar weithgareddau gyda grwpiau amrywiol a grwpiau 'nad ydynt wedi ymgysylltu eto'.

Fel rhan o raglen ymgysylltu'r farnwriaeth ag ysgolion, ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus ag Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2026 i siarad â disgyblion am reolaeth y gyfraith mewn cymdeithas. Ymunodd Ei Anrhydedd y Barnwr Paul Hopkins (Uwch Farnwr Cylchdaith a Barnwr Teulu Dynodedig Cymru) a'r Barnwr Rhanbarth Victoria Becquer-Moreno â hi, ac mae'r ddau yn eistedd yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd. Roedd yr ymweliad yn cynnwys trafodaethau am waith barnwyr, cipolwg ar yrfaoedd barnwrol, a sesiwn holi ac ateb a oedd yn cwmpasu annibyniaeth farnwrol, rheolaeth y gyfraith, a chyfrifoldebau ehangach y farnwriaeth. Roedd y disgyblion o'r farn bod yr ymweliad yn hynod ysbrydoledig a defnyddiol.



Barnwyr yn siarad â myfyrwyr y gyfraith o Brifysgol Gorllewin Llundain

Y Proffesiwn Cyfreithiol

Parhaodd ymgysylltiad y farnwriaeth â Chyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith a Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol yn gryf drwy gydol 2026. Galluogodd cyfarfodydd rheolaidd, mentrau ar y cyd a chydweithio parhaus i'r farnwriaeth a chyrff proffesiynol drafod materion sy'n effeithio ar y system gyfiawnder, datblygu proffesiwn amrywiol a thalentog, a'r ffordd orau o gynnal safonau uchel ar draws y gymuned gyfreithiol. Parhaodd y perthnasoedd hyn i chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael eu cefnogi gan broffesiwn cyfreithiol effeithiol sydd â'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol..

Panel Diogelu Data Barnwrol

Mae cynnydd wedi parhau o ran codi ymwybyddiaeth o ofynion diogelu data o fewn y farnwriaeth ac ymgorffori cydymffurfiaeth â'r gofynion hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei oruchwylio gan y Panel Diogelu Data Barnwrol. Ei rôl yw goruchwylio'r gwaith o brosesu data personol gan unigolion, llysoedd a thribiwnlysoedd wrth iddynt weithredu mewn swyddogaeth farnwrol.

Mae'r Panel yn adolygu pob digwyddiad sy'n ymwneud â data barnwrol er mwyn nodi themâu a llywio cyngor a chanllawiau. Adroddwyd ar nifer fach o ddigwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf; nid oes yr un ohonynt wedi arwain at ganlyniadau difrifol.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried cwynion gan unigolion ynghylch y ffordd y mae eu data personol wedi'i brosesu gan lys, tribiwnlys neu unigolyn wrth weithredu mewn swyddogaeth farnwrol.

Tryloywder a Chyfiawnder Agored

Yn ystod 2025-26, gwnaeth y Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored gynnydd sylweddol wrth symud o ddatblygu strategaeth i'w gweithredu, yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch ei Amcanion Allweddol a chyhoeddi'r Amcanion Allweddol terfynol ym mis Gorffennaf 2025.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu proses strwythuredig o Asesu Effaith Newid ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i asesu i ba raddau y mae arferion presennol yn cyd-fynd â'r Amcanion Allweddol, ac i nodi meysydd lle gallai fod angen gwelliannau cyfreithiol, gweithdrefnol neu weithredol. Mae'r gwaith hwn yn darparu'r sylfaen ar gyfer gweithredu sy'n benodol i bob awdurdodaeth ac ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

Mae trefniadau llywodraethu hefyd wedi'u cryfhau i gefnogi'r gwaith cyflawni. Mae Bwrdd Gweithredol llai bellach yn darparu goruchwyliaeth strategol ac yn gwneud penderfyniadau'n amserol, gyda chefnogaeth Grŵp Llywio ehangach a gweithgorau sy'n canolbwyntio ar awdurdodaethau a themâu penodol. Mae tudalen we benodol ar gyfer y Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored hefyd wedi'i sefydlu ar wefan y farnwriaeth, gan ddarparu ffynhonnell ganolog o wybodaeth am waith y Bwrdd, gan gynnwys ei Amcanion Allweddol, ei Gylch Gorchwyl, ei aelodaeth, diweddariadau, datganiadau safbwynt a chrynodebau o gyfarfodydd.

Mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei ymgysylltiad â'r Pwyllgorau Rheolau Trefniadaeth. Cyflwynodd ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein o safbwynt tryloywder a chyfiawnder agored, ac mae'n gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil, y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu, y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Tribiwnlysoedd i ystyried sut y gellir adlewyrchu'r Amcanion Allweddol mewn fframweithiau gweithdrefnol. Yn benodol, mae'r Bwrdd wedi gwahodd pob Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth i gydnabod cyfiawnder agored yn amcan gor-redol pob awdurdodaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd, gan gydnabod gofynion penodol pob awdurdodaeth ar yr un pryd.

Gwnaed cynnydd ymarferol pwysig o ran mynediad at ddogfennau llys yn yr Adran Sifil. Adolygwyd cynllun peilot Mynediad at Ddogfennau Craidd Adran Sifil y Llys Apêl, a chafodd ei ymestyn am 12 mis o fis Ionawr 2026 ymlaen, gydag adborth yn dangos ei fod wedi gwella mynediad i'r cyhoedd a'r wasg. Mae cynllun peilot Dogfennau Parth Cyhoeddus Is-bwyllgor y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil hefyd wedi dechrau yn y Llys Masnachol, Llys Masnachol Cylchdaith Llundain a'r Rhestr Ariannol, gan gefnogi mynediad ar-lein at ddogfennau sy'n dod i'r parth cyhoeddus. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, er bod materion ymarferol yn parhau, gan gynnwys ffioedd mynediad at ddogfennau, amseroldeb a pha mor hawdd yw defnyddio CE-File. Mae meysydd i'w gwella sydd o fewn cylch gwaith y farnwriaeth yn cael eu nodi a'u harchwilio.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynigion i ymestyn darlledu i'r Llys Gweinyddol. Byddai'r dull arfaethedig yn dilyn model sefydledig y Llys Apêl yn fras, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddarlledu crynodebau o ddyfarniadau a dadleuon cyfreithiol, yn amodol ar gymeradwyaeth farnwrol. Disgwylir i'r offeryn statudol perthnasol fynd drwy'r broses gymeradwyo weinidogol cyn cael ei osod gerbron y Senedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddiwygiadau posibl i fframwaith darlledu'r Llys Apêl mewn achosion sy'n ymwneud ag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, yn amodol ar gymeradwyaeth farnwrol.

Gwnaed cynnydd hefyd o ran cyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau. Mae gwaith yn parhau i wella'r broses o gyhoeddi penderfyniadau Siambr Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cynllun peilot cychwynnol a threfniadau cynaliadwy tymor hwy.

Mae GLITEF yn gwneud gwaith pellach i ddiffinio rôl a model gweithredu Hyrwyddwyr Cyfiawnder Agored ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bydd hyn yn cefnogi mwy o gysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir ag ymholiadau ynghylch cyfiawnder agored ac yn helpu i sicrhau llwybr cliriach ar gyfer cael cyngor ac arweiniad.

Yn gyffredinol, bu hon yn flwyddyn o gynnydd sylweddol, gyda symudiad clir o sefydlu egwyddorion i gyflawni gwelliannau ymarferol sy'n cefnogi tryloywder, dealltwriaeth y cyhoedd a hyder yn y system gyfiawnder.

Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd

Yn unol â chyfrifoldebau statudol yr Arglwyddes Brif Ustus, ac i gyd-fynd â ffiniau cyfansoddiadol, mae'n ddyletswydd arni i ymgysylltu'n rheolaidd â'r llywodraeth.

I gefnogi'r cyfrifoldebau hyn a darparu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith ymgysylltu seneddol, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Barnwrol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwyddes Brif Ustus, Strategaeth Ymgysylltu Seneddol ym mis Mawrth 2026. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol a wnaed i hyrwyddo rheolaeth y gyfraith, ond gyda ffocws penodol ar berthnasoedd a gweithgareddau gyda'r Senedd, seneddwyr a'u swyddogion. Nod y strategaeth yw:

- Cryfhau cyd-ddealltwriaeth rhwng y farnwriaeth a'r Senedd
- Hyrwyddo annibyniaeth farnwrol a rheolaeth y gyfraith
- Gwella ymgysylltiad â seneddwyr a chyrff seneddol
- Gwella ymwybyddiaeth y farnwriaeth o brosesau seneddol
- Cynyddu ymwybyddiaeth y farnwriaeth o ddatblygiadau seneddol sy'n effeithio ar weinyddu cyfiawnder.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi cyfarfod â'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Parhaol bob mis, yn ogystal â chyfarfod yn rheolaidd ag uwch-swyddogion eraill yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEF. Mae pynciau trafod rheolaidd gyda'r Arglwydd Ganghellor wedi cynnwys diogelwch barnwrol, adnoddau, moderneiddio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd dan arweiniad y farnwriaeth, capasiti carchardai, rheolaeth y gyfraith, annibyniaeth farnwrol, recriwtio ac amrywiaeth. Mae gweithredu'r cynigion i ddiwygio cyfiawnder troseddol a nodir yn y Bil Llysoedd a Thribiwnlysoedd yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol, a gweithredu Deddf Dedfrydu 2026, hefyd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Cyfarfu'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd ag uwch-swyddogion a gweinidogion o ystod o adrannau'r llywodraeth. Cynhaliodd uwch-farnwyr eraill gyfarfodydd ag is-weinidogion perthnasol i sicrhau bod safbwyntiau'r farnwriaeth yn ei chyfanrwydd yn cael eu cyfleu i'r llywodraeth, ac i gefnogi cydweithio â'r llywodraeth er budd defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, y cyhoedd ehangach, a deiliaid swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr.

Parhaodd yr Arglwyddes Brif Ustus i gyfrannu at waith Senedd y DU, gan gyfarfod â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ym mis Ionawr 2026 a'r Comisiynydd Seneddol dros Safonau ym mis Mehefin 2026. Rhoddodd dystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2025 a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ym mis Mehefin 2026. Darparodd yr Arglwyddes Brif Ustus dystiolaeth ysgrifenedig hefyd i bwyllgorau Seneddol ar ran barnwriaeth Cymru a Lloegr, gan fod yn un o'r cyd-lofnodwyr ar gyflwyniad i ymchwiliad y Pwyllgor

Cyfansoddiad i reolaeth y gyfraith ym mis Ebrill 2025, ac ymateb ym mis Mawrth 2026 i alwad y Pwyllgor Trefniadaeth am dystiolaeth ar y rheol sub judice.

Parhaodd Swyddfa'r Arglwyddes Brif Ustus i wahodd pob AS i ymweld â'u canolfannau llysoedd a thribiwnlysoedd lleol, gyda'r nod o gynorthwyo ASau i feithrin eu dealltwriaeth o waith y farnwriaeth a'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y llysoedd yn eu hetholaethau, gyda mwy na 100 o ASau yn ymweld â'u llysoedd a'u tribiwnlysoedd lleol yn ystod y cyfnod adrodd.

Ers yr adroddiad diwethaf, cymerwyd camau i ehangu'r grŵp o Farnwyr Cyswllt Seneddol, gyda dau arall wedi'u penodi o'r Uchel Lys, ac ymarfer mynegi diddordeb pellach yn cael ei gynnal ymhlith Barnwyr Cylchdaith, Barnwyr Rhanbarth, Barnwyr Tribiwnlysoedd a Chrwneriaid.

Mae'r Grŵp Cyswllt Seneddol hefyd wedi'i wneud yn is-bwyllgor i Gyngor y Barnwyr, gan amlygu pwysigrwydd ei waith a darparu llwybr adrodd uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol. Fel rhan o'u gwaith parhaus, ymunodd aelodau'r Grŵp â'r Arglwyddes Brif Ustus mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyfansoddiad ym mis Chwefror 2026, a chyfarfuant â'r Comisiynydd Seneddol dros Safonau ym mis Gorffennaf 2026. Nod yr ymgysylltu hwn oedd cynyddu gwybodaeth pawb sy'n gweithio yn Senedd y DU am y system gyfiawnder.

Ymgysylltu Rhyngwladol

Mae barnwriaeth Cymru a Lloegr wedi parhau i ymgysylltu'n rhyngwladol i hyrwyddo rheolaeth y gyfraith, cynnal annibyniaeth farnwrol a chryfhau cydweithrediad rhwng systemau cyfreithiol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf ers lansio'r **Strategaeth Farnwrol ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol 2025–2029**, gwelwyd dull mwy penodol o ymdrin â'r gwaith hwn, gyda gweithgarwch yn cael ei gyfeirio at y meysydd sydd â'r gwerth a'r effaith strategol fwyaf. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd y farnwriaeth 35 o ymweliadau tramor, croesawodd 38 o ddirprwyaethau o dramor a darparodd raglen eang o hyfforddiant barnwrol a gweithgareddau meithrin gallu.

Croesawu dirprwyaethau o dramor

Croesawodd y farnwriaeth nifer sylweddol o Brif Ustusiaid ac uwch-farnwyr eraill i Gymru a Lloegr, gan gynnwys fel rhan o Agoriad y Flwyddyn Gyfreithiol ym mis Hydref 2025. Daeth barnwyr ar ymweliad o awdurdodaethau gan gynnwys Albania, Armenia, Awstralia, Bermwda, Canada, yr Aifft, Japan, Malawi, Maleisia, Malta, Nepal, Nigeria, Ynysoedd y Philipinau, De Affrica, De Corea, Sbaen, Unol Daleithiau America ac Wsbecistan. Mynychwyd Agoriad y Flwyddyn Gyfreithiol gan Brif Ustusiaid, neu swyddogion cyfatebol, Canada, Ffrainc, Casachstan, Montenegro a Sweden. Cyfarfu uwch-aelodau'r farnwriaeth hefyd â Phrif Foneddiges yr Almaen a Llysgenhadon Wsbecistan, India a Japan.

Ym mis Chwefror 2026, cynhaliodd Cymru a Lloegr Gynhadledd gyntaf Barnwyr Cyswllt Ewrop, gan ddod â Barnwyr Cyswllt o Ffrainc, Sbaen, yr Iseldiroedd a Rwmania sydd wedi'u lleoli yn y DU ynghyd â barnwyr y DU a rhanddeiliaid cyfiawnder.

Mae'r ymgysylltiadau hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth ryngwladol o system farnwrol Cymru a Lloegr, gan greu cyfleoedd ar yr un pryd i farnwyr rannu profiadau, meithrin cydweithrediad barnwrol agosach, a gwella gwybodaeth am wahanol draddodiadau ac arferion cyfreithiol.

Ymweld â dirprwyaethau tramor

Y Gymanwlad

Yn ystod ei hymweliad â Chanada ym mis Mai 2026, cyfarfu'r Arglwyddes Brif Ustus ag uwch-gymheiriaid barnwrol a'r Prif Weinidog Mark Carney, gan gryfhau cysylltiadau barnwrol dwyochrog a hyrwyddo ymrwymiad cyffredin i reolaeth y gyfraith, annibyniaeth farnwrol a gwerthoedd cyfraith gyffredin. Cynrychiolodd yr Arglwyddes Brif Ustus, ochr yn ochr â'r Arglwydd Reed, Llywydd Goruchaf Lys y DU, y DU yn Uwchgynhadledd J20 yn Ne Affrica. Yn ogystal, mae uwch-farnwyr wedi cymryd rhan yng nghynadleddau Cymdeithas Ynadon a Barnwyr y Gymanwlad yn Y Gambia a Jamaica, gyda gweithgarwch ymgysylltu barnwrol ehangach yn cael ei gynnal drwy drafodaethau bord gron rhanbarthol yn Cenia a Nigeria. judicial engagement taking place through regional roundtables in Kenya and Nigeria.

Ewrop

Mae barnwyr wedi parhau i gyfrannu at gydweithrediad barnwrol ar draws Ewrop drwy gymryd rhan mewn sefydliadau amlochrog, gan gynnwys Rhwydwaith Ewropeaidd y Cynghorau Barnwrol, Cymdeithas Ewropeaidd Barnwyr Llysoedd Llafur, Cymdeithas Ewropeaidd y Barnwyr a Sefydliad Cyfraith Ewrop. Ym mis Ionawr 2026, mynychodd yr Arglwyddes Brif Ustus Agoriad y Flwyddyn Farnwrol yn Llys Cassation Ffrainc, lle canolbwyntiodd y trafodaethau ar heriau cyffredin, gan gynnwys diogelwch barnwrol, disgyblaeth a chyfathrebu.

Rhwydweithiau barnwrol byd-eang

Mae'r farnwriaeth hefyd wedi cryfhau ei hymgysylltiad yn ehangach. Yn Fietnam, cefnogodd deialog farnwrol waith ar Ganolfan Ariannol Ryngwladol arfaethedig y wlad, gan gynnwys ymgysylltu ar ddatrys anghydfodau masnachol a chyfraith gyffredin. Cryfhaodd ymgysylltiad uwch-farnwrol â Japan gysylltiadau dwyochrog a chydweithrediad ar ddyfodol cyfiawnder, rheolaeth y gyfraith ac arloesedd barnwrol.



Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr gydag Elke Büdenbender, cyn-farnwr a Phrif Foneddiges yr Almaen, a barnwyr eraill

Hyfforddiant a mentora barnwrol

Gyda chefnogaeth y Coleg Barnwrol, mae'r farnwriaeth wedi parhau i feithrin partneriaethau barnwrol a chefnogi rheolaeth y gyfraith drwy ddarparu hyfforddiant ac ymarferion mentora barnwrol rhyngwladol.

Cwblhawyd trydydd cylch, a'r mwyaf hyd yma, y Rhaglen Mentora Barnwrol Ryngwladol eleni, gyda 100 o farnwyr y DU wedi'u paru â barnwyr o 20 o awdurdodaethau rhyngwladol. Parhaodd partneriaethau hyfforddi gydag Albania, Nigeria a Maleisia, a chefnogodd barnwyr o Gymru a Lloegr eu cymheiriaid yn Wcráin drwy ddarparu hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb yn Rhaglen Meithrin Gallu Masnachol Wcráin.

Cyfraith teulu rhyngwladol

Mae barnwyr wedi mynychu ystod eang o ddigwyddiadau rhyngwladol i rannu arferion gorau, gan gynnwys fforwm ar gam-drin domestig a Chonfensiwn 1980 ar Herwgydio Plant ym Mrasil ym mis Hydref 2025, a'r gynhadledd gyfraith teulu sefydlog fwyaf yn Affrica, a gynhaliwyd yn Cape Town ym mis Mawrth 2026. Ym mis Mai 2026, croesawodd barnwyr ddirprwyon o bob rhan o'r DU ac Iwerddon i hwyluso cydweithrediad agosach mewn achosion teulu ac achosion analluedd oedolion sy'n croesi ffiniau awdurdodaethau. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cynnal proffil cyfiawnder teulu yng Nghymru a Lloegr ar lefel ryngwladol.

Fforwm Rhyngwladol Sefydlog y Llysoedd Masnachol

Parhaodd Cymru a Lloegr i chwarae rhan amlwg yn Fforwm Rhyngwladol Sefydlog y Llysoedd Masnachol, sy'n dod â llysoedd masnachol o bob cwr o'r byd ynghyd. Cynhaliwyd y chweched cyfarfod llawn gan Oruchaf Lys India yn New Delhi ym mis Tachwedd 2025, gyda dirprwyaethau barnwrol o fwy na 50 o awdurdodaethau wedi'u cynrychioli a thrafodaethau'n cwmpasu materion sy'n llywio dyfodol cyfiawnder masnachol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y fforwm hefyd drafodaethau bord gron barnwrol rhyngwladol ar gyfraith forwrol a dyfarnu mewn anghydfodau adeiladu, a derbyniodd wobr gan Fforwm Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod Prif Ustusiaid Affrica ym mis Mehefin 2026.



Barnwyr yn cynnal trafodaeth bord gron ryngwladol

ISBN 978-1-5286-6817-0

E03675637